



Career Choices Dewis Gyrfa Cyf

Cynllun Busnes 2019-20

Ein gweledigaeth yw Cymru sy'n wlad lle y caiff unigolion eu hysbrydoli i gymryd rheolaeth dros eu gyrfaoedd.

Ein cenhadaeth yw sicrhau bod cleientiaid yn cyflawni eu potensial.

Cynnwys

| | |
|-----------|---|
| Adran 1 | Rhoi'r Weledigaeth ar Waith – Blwyddyn 3 o Newid Bywydau |
| | Rhagair |
| 1.1 | Rhoi'r Agenda Gymreig ar Waith |
| 1.2 | Trosolwg o'r Cynllun Busnes |
| 1.3 | Cyflawni Ein Canlyniadau |
| Adran 2 | Cyflawni ar ran pobl Cymru |
| 2.1 | Cefnogi'r Daith Cynllunio Gyrfa mewn Addysg Statudol |
| 2.2 | Gwasanaethau i Blant Ysgolion Cynradd |
| 2.3 | Gwasanaethau i Ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3 |
| 2.4 | Gwasanaethau i Ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4 |
| 2.5 | Cefnogi'r Daith Cynllunio Gyrfa Ôl-16 |
| 2.6 | Ymadawyr Ysgol yn Parhau mewn Addysg |
| 2.7 | Gweithio gyda Rhieni |
| 2.8 | Cefnogaeth i Ymadawyr Ysgol sy'n Dewis Peidio â Pharhau mewn Addysg |
| 2.9 | Cefnogi'r Daith Cynllunio Gyrfa Ôl-18 |
| 2.10 | Sianelau Cyflwyno Gwasanaethau |
| Adran 3 | Adeiladu ar Lwyddiant |
| 3.1 | Busnes Cymru |
| 3.2 | Arolwg o Hynt Disgyblion |
| 3.3 | Gwerthuso Manteision Economaidd Gyrfa Cymru |
| 3.4 | Hunanwerthuso a Gwerthuso Gwasanaethau |
| 3.5 | TGCh |
| 3.6 | Staff Cymwys gyda Datblygiad Proffesiynol Parhaus Effeithiol |
| 3.7 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |
| 3.8 | Y Gymraeg |
| Adran 4 | Rheoli Cyllid ac Adnoddau / Prosiectau Nad Ydynt yn Rhai Craidd |
| Atodiad 1 | Tabl Mesurau Perfformiad |
| Atodiad 2 | Rhestr Talfyriadau |

Adran 1 - Rhoi'r Weledigaeth ar Waith – Blwyddyn 3 o Newid Bywydau

Rhagair

Ar drothwy blwyddyn olaf *Newid Bywydau - Gweledigaeth ar gyfer Gyrfa Cymru* rydym yn adeiladu ar y datblygiadau newydd cyffrous sydd eisoes wedi digwydd yn ystod dwy flynedd gyntaf y strategaeth, yn enwedig o ran y Gyfnewidfa Addysg Busnes, cysylltiad mwy effeithiol rhwng ysgolion uwchradd a chyflogwyr a chefnogi meincnodi ac arweinyddiaeth ar gyfer y Cwricwlwm Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith (Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith yn y cwricwlwm newydd o 2022) yng Nghymru. Yn unol â'n gweledigaeth, rydym wedi gweld cynnydd yn y lefelau ymgysylltu gyda disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 mewn ysgolion wrth i ni helpu i'w paratoi ar gyfer bywyd ar ôl gadael yr ysgol ac rydym yn darparu ein gwasanaethau mewn ffordd gynyddol 'gyfunol', gan integreiddio technoleg ddigidol ochr yn ochr â rhyngweithio wyneb yn wyneb. Bydd datblygiadau'n parhau i sicrhau ein bod, drwy *Newid Bywydau*, yn cyfrannu at agendâu polisi ehangach Llywodraeth Cymru mewn perthynas â sgiliau, economi fywiog, dyheadau a chyrhaeddiad, yn ogystal ag anelu at gyflawni'r canlyniadau lefel uchel a nodir yn ein gweledigaeth a'n cylch gwaith:

- Gwella effeithlonrwydd marchnadoedd llafur drwy gau'r bwch rhwng sgiliau a'r gwaith sydd ar gael;
- Gwella cyfranogiad a chyrhaeddiad mewn addysg a hyfforddiant, lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant;
- Gwella'r gallu i ddod o hyd i gymorth cyflogadwyedd ar gyfer pobl o bob oed a symleiddio'r broses, a chyfeirio pobl at gymorth addas, gan leihau diweithdra ac anweithgarwch economaidd ymhlith oedolion a phobl ifanc;
- Sicrhau bod addysg ôl-orfodol mor effeithlon â phosibl drwy gefnogi penderfyniadau a ystyriwyd yn drwyadl ynghylch opsiynau a llwybrau dysgu, gan leihau'r bobl sy'n mynd a dod a lleihau'r nifer sy'n methu â chwblhau cyrsiau;
- Hyrwyddo mwy o gyd-barch rhwng llwybrau academaidd a galwedigaethol, gan sicrhau yn benodol bod pobl ifanc a'u rhieni yn ymwybodol o lwybrau prentisiaeth ac yn cael eu cefnogi i'w dilyn y bo'n briodol
- Yn unol â'r uchelgais a amlinellir yng Nghwricwlwm Cymru, cefnogi ysgolion a cholegau i ddarparu profiadau a chyfleoedd i bobl ifanc sy'n helpu i'w paratoi ar gyfer byd gwaith;
- Cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050;
- Gwaith partneriaeth cryfach, mwy effeithiol gyda phartneriaid allweddol fel ysgolion a chyflogwyr a datblygu cysylltiadau effeithiol rhwng addysg a busnes ledled Cymru;
- Parhau i ddatblygu perthynas waith agosach gyda Busnes Cymru, gan gynnwys cysoni'r pwyntiau mynediad, protocolau atgyfeirio a llwyfannau digidol.

Yn ystod dwy flynedd gyntaf *Newid Bywydau* rydym wedi cyflawni nifer o gerrig milltir. Bellach mae ysgolion yn troi at y Gyfnewidfa Addysg Busnes i hwyluso ymgysylltiad â

chyflogwyr gyda mwy na 13,000 o gyflogwyr wedi'u rhestru ac erbyn diwedd 2019-20 bydd pob ysgol wedi'i hyfforddi. Er gwaethaf yr heriau sy'n wynebu ysgolion wrth weithio tuag at y cwricwlwm newydd, rydym yn gweld nifer cynyddol o ysgolion yn ennill Marc Gyrfa Cymru. Mae adborth cleientiaid a chanlyniadau ymgysylltu â chyflogwyr a sesiynau codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd a Gwybodaeth am y Farchnad Lafur yn hynod gadarnhaol ynghyd ag adborth gan ysgolion am rôl y Swyddog Cyfrif a chefnogaeth ar gyfer dylunio'r cwricwlwm. Mae nifer y bobl ifanc sy'n dod yn NEET ar ôl gadael yr ysgol yn parhau ar ei lefel isaf erioed ac mae nifer y bobl ifanc yn Haen 3 (di-waith) wedi lleihau yn ystod y ddwy flynedd y bu Newid Bywydau ar waith.

Yn ogystal â dechrau ar flwyddyn olaf Newid Bywydau, yn 2019-20 byddwn yn dechrau cyflwyno Cymru'n Gweithio, y gwasanaeth cyngor cyflogadwyedd newydd i Gymru ar ran Llywodraeth Cymru, a gaiff ei lansio ar 1 Mai. Bydd y gwasanaeth cenedlaethol newydd hwn yn ei gwneud hi'n haws i bobl gael gafael ar gyngor a chefnogaeth broffesiynol, asesiad yn seiliedig ar angen ac i gael eu hatgyfeirio at gymorth priodol i gael swydd a bydd yn ddull allweddol o sicrhau cymorth cyflogadwyedd symlach i unigolion ledled Cymru.

Yn y cyfnod ansicr hwn i economi Cymru, rydym yn edrych ymlaen at gyflawni ein rôl o ran helpu pobl i newid eu stori drwy gymorth datblygu gyrfa proffesiynol, atgyfeiriadau personol a chyflawni drwy'r sianelau sy'n diwallu anghenion ein cleientiaid orau.

Gan edrych ymlaen y tu hwnt i Newid Bywydau, ein nod yn 2020 yw adeiladu ar lwyddiannau'r ddwy flynedd flaenorol ac yn sgil cyflwyno Cymru'n Gweithio, parhau i ddatblygu fel sefydliad sy'n darparu gwasanaethau i gleientiaid o bob oedran, wedi'u llywio gan ddata a llais y cleient, drwy'r sianel o'u dewis, sy'n arwain at ganlyniadau rhagorol.



Nikki Lawrence

Prif Weithredwr

1.1: Rhoi'r Agenda Gymreig ar Waith

Byddwn yn cefnogi'r Rhaglen Lywodraethu. Yn benodol, mae *Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi* yn amlinellu cyd-destun uchelgeisiol lle y byddwn yn cefnogi dull gweithredu trawsadrannol ac yn cyflawni ein rôl wrth roi pobl wrth wraidd ymyriadau datblygu economaidd. Yn benodol, byddwn yn:

- Darparu cyngor gyrfaoedd wedi'u dargedu i helpu pobl ifanc i gael mynediad at gyfleoedd mewn addysg, gwaith a hyfforddiant ar ôl iddynt adael yr ysgol neu'r coleg, gan ganolbwyntio'n benodol ar sectorau newydd a thwf a hefyd ar gyfleoedd entrepreneuriaidd.
- Tyfu'r Gyfnewidfa Addysg Busnes, gan alluogi cyflogwyr i ddarparu gweithgareddau cysylltu â chyflogwyr a gweithgareddau byd gwaith o ansawdd uchel i ddisgyblion ledled Cymru a'u helpu i baratoi i chwarae rhan lawn a llwyddiannus ym marchnad lafur y dyfodol.
- Parhau â'n gwaith ag ysgolion uwchradd i ddatblygu cwricwlwm newydd fel yr amlinellir yn *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl 2017-2021* ac ymrwymo i ddarparu cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd annibynnol o ansawdd uchel i bobl ifanc i'w helpu i wneud dewisiadau dysgu cadarn, datblygu eu cymwyseddau rheoli gyrfa a llwyddo ym myd gwaith.
- Gweithio â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ragweld anghenion sgiliau yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar sectorau twf sy'n flaenoriaeth i'r rhanbarthau a sicrhau bod ein rhaglenni yn cyd-fynd â'r anghenion hynny.
- Cefnogi'r gwaith o gyflwyno 100,000 o brentisiaethau i bob oedran sy'n cyd-fynd â gofynion economaidd erbyn 2021.
- Parhau i chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gyflwyno'r *Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid*.
- Chwarae rhan ganolog yn y broses o gyflawni *Cynllun Cyflogadwyedd Cymru* drwy gyflwyno 'Cymru'n Gweithio', y gwasanaeth cyngor cyflogadwyedd newydd i Gymru. Bydd y gwasanaeth cenedlaethol newydd hwn yn ei gwneud hi'n haws i bobl gael gafael ar gyngor a chymorth proffesiynol, asesiad yn seiliedig ar angen ac i gael eu hatgyfeirio at gymorth priodol i gael swydd. Bydd yn ddull allweddol i sicrhau cymorth cyflogadwyedd symlach i unigolion ledled Cymru, ac yn cefnogi pobl i newid eu stori drwy gymorth datblygu gyrfa proffesiynol, atgyfeiriadau unigol a thrwy ddarparu cymorth pwrpasol i ddiwallu eu hanghenion.
- Cefnogi a helpu i gyflawni nodau *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*.

1.2: Trosolwg o'r Cynllun Busnes

Mae'r Cynllun Busnes hwn ar gyfer 2019-20 yn adlewyrchu trydedd flwyddyn ein gweledigaeth. Dyma'r sail ar gyfer sut y byddwn yn defnyddio adnoddau i gyflawni'r canlyniadau lefel uchel a nodir yn ein Gweledigaeth a'n llythyr cylch gwaith ar gyfer 2019-20. Mae rhagor o fanylion ynglŷn â dyrannu adnoddau yn Adran 4.

Byddwn yn parhau â'r dull partneriaeth a fydd yn hanfodol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r naw canlyniad, ac rydym wedi nodi ein cyfraniad unigryw at fywydau unigolion ac iechyd a bywiogrwydd yr economi. Disgrifir y cyfraniad hwn gan gyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol, a chaiff ei fesur yn eu herbyn. Defnyddir y rhain i fonitro a sbarduno perfformiad ac yn bennaf maent yn cynnwys ystod o ddulliau mesur canlyniadau (neu, lle y bo'n briodol, allbwn), sydd, yn hollbwysig, yn cynnwys lefelau boddhad cwsmeriaid.

Yn 2019-20 byddwn yn darparu ystod o weithgareddau o ansawdd uchel a fydd yn ennyn diddordeb ein cleientiaid ac yn sicrhau ein bod yn cyfrannu'n uniongyrchol at lesiant economaidd a chymdeithasol economi Cymru, gan gynnwys:

- Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y cleient sy'n gwella cymwyseddau rheoli gyrfa ac yn codi dyheadau.
- Gweithgareddau ystyrlon sy'n gysylltiedig â chyflogwyr o fewn ysgolion a'r tu allan iddynt.
- Cefnogi gwaith dylunio'r cwricwlwm gyrfaedd yng nghyd-destun y farchnad lafur.

Er mwyn ein helpu i sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael yr effaith fwyaf posibl, yn 2019-20 byddwn yn adeiladu ar y datblygiadau cyffrous sydd eisoes wedi digwydd ar draws y gwasanaeth fel rhan o Newid Bywydau. Mae'r rhain yn cynnwys y Gwasanaeth **'Darganfod Prentisiaethau'**, ein cynllun cydnabod cyflogwyr i gydnabod gwerth cyfraniad cyflogwyr at gwricwlwm yr ysgol, yn ogystal â datblygiadau digidol arloesol, gan gynnwys gwasanaeth Teledu Gyrfa Cymru, sydd wedi ennill sawl gwobr.

Byddwn yn parhau i sicrhau cynnydd yn y defnydd o dechnoleg ddigidol i wasanaethu anghenion ein cwsmeriaid a rheoli ein harian a'n hadnoddau'n effeithlon. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar hunanwerthuso a gwelliant parhaus ymhlith y staff a defnyddio data'n effeithiol. Bydd hyn yn cael ei atgyfnerthu drwy gynnal a datblygu cysylltiadau effeithiol â phartneriaid a rhanddeiliaid ymhellach a buddsoddi yn natblygiad proffesiynol parhaus ein pobl. Byddwn hefyd yn edrych y tu hwnt i Gymru i ddysgu o arfer da gan wledydd eraill yn y DU a thu hwnt, yn cynnwys meithrin ein cysylltiadau â Skills Development Scotland a Careers Northern Ireland.

1.3: Cyflawni Ein Canlyniadau

| | Canlyniadau Lefel Uchel Newid Bywydau | DPA Cysylltiedig |
|----|--|---|
| 1. | Gwella effeithlonrwydd marchnadoedd llafur drwy gau'r blwch rhwng sgiliau a'r gwaith sydd ar gael. | Bydd o leiaf 75% o sampl o ddisgyblion oed ysgol yn nodi gwell dealltwriaeth o Wybodaeth am y Farchnad Lafur o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau Gyrfa Cymru. |
| 2. | Gwella cyfranogiad a chyrhaeddiad mewn addysg a hyfforddiant, lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant; | Bydd nifer y bobl ifanc sydd yn Haen 3 fel cyrchfan gyntaf ar ôl gadael yr ysgol yn llai na 3% o'r garfan. Bydd 90% o bobl ifanc 16-17 oed yn cael eu hatgyfeirio ar gyfer cefnogaeth bellach (o ddogfen DPA Cymru'n Gweithio). |
| 3. | Gwella'r gallu i ddod o hyd i gymorth cyflogadwyedd ar gyfer pobl o bob oed a symleiddio'r broses, a chyfeirio pobl at gymorth addas, gan leihau diweithdra ac anweithgarwch economaidd ymhlith oedolion a phobl ifanc. | Byddwn yn cynyddu nifer y cyfleusterau allgymorth 20% yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu gwasanaeth Cymru'n Gweithio. Rhestrir pob DPA arall Cymru'n Gweithio yn: Atodiad B - Gofynion Adrodd a Dangosyddion Perfformiad Lefel Gwasanaeth Cyngor Gwaith Cymru. |
| 4. | Sicrhau bod addysg ôl-orfodol mor effeithlon â phosibl drwy gefnogi penderfyniadau a ystyriwyd yn drwyadl ynghylch opsiynau a llwybrau dysgu, gan leihau'r bobl sy'n mynd a dod a lleihau'r nifer sy'n methu â chwblhau cyrsiau; | Bydd 70% o'r disgyblion Blwyddyn 11 a samplwyd yn nodi cynnydd yn eu cymhelliant, eu hyder a'u cydnerthedd o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau Gyrfa Cymru. |
| 5. | Hyrwyddo mwy o gyd-barch rhwng llwybrau academaidd a galwedigaethol, gan sicrhau yn benodol bod pobl ifanc a'u rhieni yn ymwybodol o lwybrau prentisiaethau ac yn cael eu cefnogi i'w dilyn fel y bo'n briodol; | Bydd o leiaf 75% o sampl o ddisgyblion oed ysgol yn nodi gwell dealltwriaeth o'u holl lwybrau o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau Gyrfa Cymru. |
| 6. | Yn unol â'r uchelgais a amlinellir yng Nghwricwlwm Cymru, cefnogi ysgolion a cholegau i ddarparu profiadau a chyfleoedd i bobl ifanc sy'n helpu i'w paratoi ar gyfer byd gwaith; | Mewn arolwg o sampl o ddisgyblion ysgol, bydd 70% yn rhoi sgôr boddhad cwsmer o dda neu well ar gyfer profiadau y cânt fynediad iddynt sydd wedi'u cynllunio i'w paratoi ar gyfer byd gwaith. |
| 7. | Cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. | Byddwn yn gosod ffigur sylfaenol ar gyfer cyfran y prentisiaethau a ddaw o'n gwasanaeth Darganfod Prentisiaethau lle mae'r Gymraeg yn ofyniad hanfodol neu ddymunol. |
| 8. | Gwaith partneriaeth cryfach, mwy effeithiol gyda phartneriaid allweddol fel ysgolion a chyflogwyr a datblygu cysylltiadau effeithiol rhwng addysg a busnes ledled Cymru. | Bydd 70% o sampl o ddisgyblion ysgol yn rhoi sgôr boddhad cwsmer o dda neu well i'n digwyddiadau ymgysylltu â chyflogwyr y maent yn eu mynychu i'w helpu i baratoi ar gyfer byd gwaith. |
| 9. | Parhau i ddatblygu perthynas waith agosach gyda Busnes Cymru, gan gynnwys cysoni'r pwyntiau mynediad, protocolau atgyfeirio a llwyfannau digidol. | Yn 2019-20 byddwn yn: <ul style="list-style-type: none"> - Cysoni ein llwyfannau yn ddigidol - Cysoni gweithgaredd ymgysylltu â busnes - Rhannu deunyddiau marchnata ar y cyd i hybu'r Gyfnewidfa Addysg Busnes - Hysbysebu digwyddiadau perthnasol ar y cyd trwy gyfryngau cymdeithasol. |

Adran 2: Cyflawni ar ran pobl Cymru

2.1: Cefnogi'r Daith Cynllunio Gyrfa mewn Addysg Statudol

Bydd Gyrfa Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth agos ag ysgolion uwchradd prif ffrwd ac ysgolion arbennig. Byddwn yn gwneud hyn er mwyn:

- Hwyluso darparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd effeithiol i ddisgyblion unigol drwy rôl y Swyddog Cyfrif.
- Cefnogi ysgolion i ddarparu profiadau o ansawdd uchel sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd i bob disgybl, gan sicrhau bod disgyblion yn elwa o gymryd rhan mewn gweithgareddau 'byd gwaith' perthnasol ac addas i gyfoethogi eu dysgu a'u cefnogi i bontio'n llwyddiannus.

Yn unol â'n hymrwymiad parhaus i gyflawni strategaeth 'Newid Bywydau', bydd Cynghorwyr Gyrfa yn parhau â'u rôl 'Swyddog Cyfrif' ar gyfer ysgolion unigol, gan weithio â staff yr ysgol ac aelodau arall o dîm cyflwyno gwasanaethau Gyrfa Cymru i gydlynu'r ystod lawn o wasanaethau i sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu diwallu. Byddwn yn parhau i gael Swyddog Cyfrif penodol ar gyfer pob ysgol uwchradd ac ysgol arbennig yng Nghymru. Gan adeiladu ar adolygiad a gwerthusiad o rôl y Swyddog Cyfrif yn y flwyddyn fusnes 2018-19, byddwn yn datblygu'r rôl ymhellach i sicrhau partneriaethau cryfach a mwy effeithiol ag ysgolion ledled Cymru.

Ochr yn ochr â'n gwaith â disgyblion unigol, byddwn yn parhau i weithio ar y cyd ag ysgolion i ddatblygu a gwella'r modd y darperir profiadau Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith, gan gynnwys ymgysylltu â chyflogwyr i helpu i leihau'r achosion o gamgyfatebiaeth sy'n aml yn bodoli rhwng dyheadau gyrfa pobl ifanc a'r cyfleoedd sydd ar gael, a'r sgiliau sydd eu hangen, ym marchnad lafur heddiw. Bydd ein cefnogaeth i ysgolion yn cynnwys:

- Parhau i gefnogi ysgolion i sicrhau achrediad ac ailachrediad ar gyfer Marc Gyrfa Cymru. Yn ystod y flwyddyn rydym yn amcangyfrif y bydd 15 sefydliad yn cyflawni'r Marc am y tro cyntaf ac y bydd 40 yn cael eu hailachredu. Ar hyn o bryd mae gennym 125 o sefydliadau eisoes wedi'u hachredu â'r Marc gyda 36 o sefydliadau ychwanegol yn cymryd rhan yn y broses, gan wneud cyfanswm o 161 sydd naill ai wedi ennill y Marc neu'n gweithio tuag ato.
- Cynnal ein cynnig i athrawon o gefnogaeth ymgynghori a hyfforddiant perthnasol ar weithredu'r Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith fel rhan o arlwy o sesiynau y cytunwyd arnynt. Yn ystod y flwyddyn byddwn hefyd yn canolbwyntio ar unrhyw elfennau sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd o'r cwricwlwm newydd ac yn hyfforddi ysgolion mewn rhannau perthnasol o wefan newydd Gyrfacymru.com. Rydym yn amcangyfrif y byddwn yn cyflwyno o leiaf 200 o sesiynau hyfforddi a 500 o sesiynau ymgynghori yn ystod y flwyddyn. Bydd y rhain yn cael eu cynnal ledled y wlad ac er bod y mwyafrif yn gysylltiedig â chefnogaeth ar gyfer Marc Gyrfa Cymru, hyfforddi ysgolion i ddefnyddio'r

Gyfnwidfa Addysg Busnes a'r wefan, maent yn cynnwys ystod eang o eitemau cymorth a hyfforddiant i ysgolion.

- Cefnogi peilot meincnodau Gatsby yn Rhondda Cynon Taf fel aelod o'r grŵp llywio, ond hefyd edrych ar weithio ag ysgolion eraill ledled Cymru i ehangu'r defnydd o'r meincnodau yn seiliedig ar syniadau newydd ar gyfer model cynaliadwy. Fel rhan o'r dull hwn byddwn yn ymateb i geisiadau gan ysgolion am ragor o wybodaeth ar y meincnodau a sut y gallent gefnogi'r gwaith cyflwyno.
- Parhau i gefnogi ysgolion a phartneriaid arall e.e. consortia gwella ysgolion rhanbarthol, drwy gynhyrchu adnoddau priodol sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd. Ar ôl sefydlu presenoldeb Gyrfya Cymru ar Hwb yn ystod 2018-19, byddwn yn cynyddu argaeledd adnoddau i athrawon ymhellach d9rwy wneud gwell defnydd o'r cyfleuster hwn.
- Gweithio mewn partneriaeth â'r Sefydliad Datblygu Gyrfya (CDI) i gyflwyno'r Dystysgrif mewn Arweinyddiaeth Gyrfaoedd i garfan o athrawon yng Ngogledd Cymru drwy'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd Ysgolion Rhanbarthol (GwE) yn dilyn peilot llwyddiannus ar y cyd ag ERW yng Ngorllewin Cymru yn 2018-19. Mae'r hyfforddiant hefyd wedi'i gynnig i **CCD a'r GCA**. Mae Gyrfya Cymru yn credu'n gryf y dylid mabwysiadu rôl Arweinydd Gyrfaoedd dynodedig ym mhob ysgol uwchradd fel y gwneir yn Lloegr ac fel y nodir ym meincnodau Gatsby. Rhaid i hyn gael ei gefnogi gan ddatblygiad proffesiynol parhaus ffurfiol a byddwn yn flaenllaw wrth gyflawni hynny. Mae ein gwaith yn 2018 wedi arwain at hyfforddi chwe athro o bum ysgol yn rhanbarth ERW ac wyth athro o ranbarth GwE.
- Parhau i weithio'n agos â Llywodraeth Cymru, drwy ein secondiad parhaus i dîm y cwricwlwm, ar agweddau allweddol o bapur a gyflwynwyd gennym yn ystod 2017-18 sy'n canolbwyntio ar gynigion i wella arweinyddiaeth gyrfaoedd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cefnogi ymdrechion i ymgorffori gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith yn y Meysydd Profiad Dysgu newydd, ond hefyd materion tymor hwy o bosibl sy'n gysylltiedig â pheilot Gatsby, sef rôl Arweinwyr Gyrfaoedd yng Nghymru.

Bydd cyflwyno holl wasanaethau Gyrfya Cymru yn parhau i gael ei drafod a'i gytuno bob blwyddyn a'i gofnodi mewn Cytundeb Partneriaeth ffurfiol â phob ysgol. Bydd y Model Darganfod Gyrfya yn sicrhau bod mynediad i'n gwasanaethau yn cael ei ehangu drwy ddefnyddio amrywiaeth o sianelau mewn dull cyfunol, gan ymgorffori sesiynau rhyngweithio a chefnogaeth unigol ac mewn grwpiau drwy ystod eang o sianelau digidol. Bydd y ffordd y cyflwynir y rhain yn cael ei lywio gan wybodaeth a data am ddisgyblion a ddarperir gan yr ysgol, offer asesu anghenion partneriaethau sgiliau rhanbarthol a Gyrfya Cymru megis data Cwis Paru Swyddi a Gwirio Gyrfya. Cytunir ar raglen gyflenwi i ddiwallu angen a bydd yn cynnwys gwasanaethau gan y tîm gyrfaoedd ehangach gan gynnwys Cynghorwyr Cyswllt Busnes, Cynghorwyr Gyrfya a Chydlynwyr Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith a chynghorwyr ADY. Bydd y Cytundeb Partneriaeth yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau bob tymor a'i addasu yn ôl yr angen i sicrhau bod anghenion y disgyblion yn cael eu diwallu drwy gydol y cyfnod.

Bydd data Gwirio Gyrfya yn cael eu rhannu â phob ysgol fel rhan o broses y Cytundeb Partneriaeth. Byddwn yn darparu gwybodaeth i bob ysgol ar sectorau allweddol a thwf rhanbarthol i dynnu sylw at achosion o gamgyfatebiaeth o ran sgiliau. Byddwn

hefyd yn rhannu data Gwirio Gyrfa â Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol er mwyn darparu data tueddiadau ar gyfer diddordebau a dyheadau gyrfa disgyblion oedran ysgol ac i gefnogi datblygu eu cynlluniau cyflogaeth a sgiliau rhanbarthol.

2.2: Gwasanaethau i Blant Ysgolion Cynradd

Mae ymchwil gan yr elusen *Education and Employers* a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2018 yn dod i'r casgliad bod disgyblion ysgolion cynradd yn datblygu syniadau gyrfaoedd ystrydebol a chyfyngedig yn ifanc iawn. Daeth yr ymchwil i'r casgliad hefyd bod cefndir cymdeithasol yn dylanwadu ar uchelgeisiau a bod diffyg cysylltiad sylweddol rhwng y swyddi y mae pobl ifanc yn dyheu amdanynt a'r rhai sy'n debygol o fodoli pan fyddant yn gadael yr ysgol.

Yn ogystal â'r ymchwil uchod, bydd addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith yn cael ei ehangu yn y cwricwlwm newydd i gynnwys plant 3-16 oed. Mewn ymateb, byddwn, yn ystod 2019-20, yn ymgymryd â gwaith i ddatblygu adnoddau priodol ar gyfer plant ysgolion cynradd ac ystyried sut y bydd yn cefnogi staff i ddeall a darparu addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Gwaith. Y nod yw codi ymwybyddiaeth disgyblion cynradd o'r mathau o yrfaedd fydd ar gael pan fyddant yn gadael yr ysgol, datblygu eu dealltwriaeth o'r gyrfaoedd hynny, ehangu eu gorwelion yn ifanc a gwneud disgyblion ysgolion cynradd yn ymwybodol o'r swyddi a fydd ar gael yn y dyfodol.

Sut y byddwn yn gwneud hyn?

Byddwn yn ymgymryd â phrosiect a fydd yn datblygu adnoddau digidol ar gyfer ysgolion cynradd. Ni fydd angen unrhyw fewnbwn ychwanegol gan Gyrfa Cymru i'r adnoddau hyn ar ôl iddynt gael eu datblygu heblaw am eu diweddarau a sicrhau eu bod yn gywir.

I sicrhau ein bod yn cynhyrchu adnoddau effeithiol, byddwn yn gweithio â grŵp bach o ysgolion cynradd yng Nghonwy (3-5 ysgol o wahanol glystyrau) i gyflawni'r canlynol:

- Mesur diddordeb
- Sicrhau cefnogaeth
- Nodi eu hanghenion o'r prosiect hwn

Byddwn hefyd yn cyfarfod â Skills Development Scotland gan ei fod eisoes yn gweithio ag ysgolion cynradd i drafod ei gwaith yn ogystal a'i effaith a gwerthusiad ohono.

O'r ysgolion cynradd sy'n cymryd rhan, byddwn yn sefydlu gweithgor bach yn cynnwys athrawon o'r ysgolion hynny, Cydlynwyr Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith a Chynghorwyr Digidol. Bydd y gweithgor yn:

- Nodi'r sesiynau y mae'r ysgolion eu heisiau.
- Nodi nifer y sesiynau yr hoffent eu cynnal.
- Nodi'r grwpiau blwyddyn fydd yn cael y sesiynau.

- Cynhyrchu byrddau stori o'r hyn y bydd ei eisiau/angen arnynt o ran fideos a deunydd digidol atodol, gan gynnwys gwybodaeth yn ymwneud â lle mae galwedigaethau amrywiol yn gweithio, herio stereoteipiau a'r hyn y maent yn ei wneud o ddydd i ddydd
- Datblygu cynllun sesiwn cofleidiol wedi'i ddatblygu gan Gydlynwyr Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith ac wedi'i fapio yn unol â 4 pwrpas y cwricwlwm newydd ac o bosibl y Maes Profiad a Dysgu Iechyd a Lles.

Wedyn gall y prosiect geisio datblygu rhai sesiynau pellach gan ddefnyddio adrannau priodol ar wefan Gyrfa Cymru i ehangu eu gorwelion a'u dealltwriaeth o Wybodaeth am y Farchnad Lafur ymhellach, megis adran 'tueddiadau swyddi'.

Mae cwmni Meee wedi cynnig cymryd rhan mewn treial gwirfoddol yn un o'r ysgolion a bydd hyn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r adnoddau terfynol yn un o'r ysgolion i fesur a oes mwy o effaith drwy ddefnyddio adnoddau staff yn ogystal ag adnoddau digidol.

Byddwn yn datblygu holiadur gwerthuso 'cyn' ac 'ar ôl' i'r plant sy'n treialu'r adnoddau am y tro cyntaf. Byddwn hefyd yn datblygu holiadur gwerthuso i'r athrawon sy'n rhan o'r peilot i raddio'r adnoddau a'u heffaith o'u safbwynt nhw.

Bydd yr adnoddau'n cael eu storio ar Hwb ar ôl eu rhoi ar waith a'u gwerthuso, a fydd yn caniatáu i ni gasglu adborth pellach a monitro 'trawiadau' a faint sy'n eu 'hoffi'.

2.3: Gwasanaethau i Ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3

Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 mae angen i ddisgyblion wneud penderfyniadau tyngedfennol ynglŷn â dewis opsiynau ar gyfer y dyfodol. Gall y dewisiadau hyn gael effaith ar eu hopsiynau ymhellach i'r dyfodol, gan gynnwys dewisiadau Ôl-16 ac, yn y pen draw, dewisiadau gyrfa tymor hwy. Byddwn yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth disgyblion o ddewisiadau mewn perthynas â'r farchnad lafur a sicrhau eu bod yn y sefyllfa orau i wneud dewisiadau gwybodus ar yr adeg dyngedfennol hon yn eu bywydau.

Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 3, bydd y disgyblion hynny sy'n manteisio ar ein cynnig yn:

- ymwybodol o sut mae'r pynciau maen nhw'n eu hastudio yn gysylltiedig â'u dewisiadau gyrfa yn y dyfodol;
- ymwybodol o bwysigrwydd gwneud penderfyniadau yn effeithiol;
- deall pwysigrwydd sgiliau a rhinweddau i gyflogwyr a chyfleoedd gwaith yn y dyfodol, gan bwysleisio'r galw am sgiliau dwyieithog;
- gwybod sut i gysylltu â ni ar gyfer unrhyw gymorth pellach y gallai fod ei angen arnynt a'r hyn y gallwn ei gynnig.

Sut y byddwn yn gwneud hyn?

Cwis Paru Swyddi

Bydd disgyblion ym mhob ysgol uwchradd yn cael eu cyflwyno i'r Cwis Paru Swyddi gan eu Cynghorydd Gyrfaf fel y gallant ddechrau archwilio a chynhyrchu syniadau gyrfaf. Caiff ei ddarparu mewn ffordd hyblyg a bydd yn cael ei drafod gyda phob ysgol uwchradd, ond gall gynnwys:

- Cyflwyno'r Cwis Paru Swyddi i'r grŵp blwyddyn gyfan ac yna'r ysgol yn cyflwyno llyfr gwaith y Cwis Paru Swyddi;
- neu
- Cyflwyno'r Cwis Paru Swyddi i'r grŵp blwyddyn gyfan ac yna cyflwyno sesiwn grŵp dan arweiniad cynghorydd ar opsiynau sydd hefyd yn cynnwys elfennau o'r Cwis Paru Swyddi sy'n cysylltu diddordebau â dewisiadau pwnc.

Cefnogaeth Un i Un

Gall disgyblion Cyfnod Allweddol 3 y nodwyd bod angen gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaf arnynt, gael gafael ar gymorth un i un gan eu cynghorydd ysgol yn ystod y cyfnod dewis opsiynau.

Sgwrs ar-lein

Er mwyn darparu cefnogaeth ychwanegol yn ystod y cyfnod pontio allweddol hwn, byddwn yn treialu sgwrsiau ar-lein byw â Chynghorwyr Gyrfaf. Byddwn yn adolygu llwyddiant y prawf i benderfynu a yw'n ymarferol ei gyflwyno ledled Cymru ac a yw o fudd i ddisgyblion yn y blynyddoedd busnes i ddod.

Ymgyrchoedd

Bydd disgyblion Cyfnod Allweddol 3 yn elwa o'n hymgyrchoedd sy'n canolbwyntio ar amlygu sectorau twf i ddisgyblion cyn iddynt ddewis pwnc/opsiwn. Byddwn hefyd yn cynnal ymgyrch i dynnu sylw at bwysigrwydd sgiliau dwyieithog, gan godi ymwybyddiaeth pobl ifanc o anghenion sgiliau cyflogwyr gan ganolbwyntio ar sgiliau yn y Gymraeg.

Cefnogaeth ADY yng Nghyfnod Allweddol 3

Bydd disgyblion ag ADY yn parhau i gael cefnogaeth agos yn ystod eu taith cynllunio gyrfaf. Bydd pawb yn:

- cael llyfryn i'w helpu i ddechrau nodi eu diddordebau wrth baratoi ar gyfer cynllunio ar gyfer y dyfodol
- cael eu blaenoriaethu ar gyfer sesiynau rhyngweithio wyneb yn wyneb yn ystod Blwyddyn 9 (neu ym Mlwyddyn 8 mewn achosion lle mae ysgolion prif ffrwd yn cychwyn eu proses dewis opsiynau yn gynnar). Yn ystod y sesiynau

rhyngweithio, bydd unrhyw gamau y cytunwyd arnynt yn cael eu cofnodi a'u rhannu yn y cyfarfod adolygu cynllunio pontio

- yn cael eu cefnogi yn eu hadolygiadau cynllunio pontio ym Mlwyddyn 9 gan eu Cynghorydd Gyrfa a fydd yn cymryd rhan lawn ac yn cyfrannu at ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- cael gwasanaeth eiriolaeth yn ôl yr angen.

2.4: Gwasanaethau i Ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4

Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 4 yn agosáu at bwynt tyngedfennol ar y daith cynllunio gyrfa. Wrth iddynt gyrraedd diwedd eu haddysg statudol byddant, am y tro cyntaf, mewn sefyllfa i ddewis lle y byddant yn treulio cam pwysig nesaf eu bywyd. Rydym yn gwybod o ddata ar hynt disgyblion bod tua 90% o'r rhai sy'n gadael yr ysgol yn dewis parhau mewn addysg llawn amser, naill ai yn y 6^{ed} Dosbarth neu mewn Coleg AB. Byddwn yn cefnogi pobl ifanc i'w helpu i wneud y dewisiadau cywir, sy'n cefnogi eu dyheadau gyrfa yn y dyfodol, ac yn y sefyllfa orau i'w helpu i ddewis cyrchfan gynaliadwy. Byddwn yn gweithio â Llywodraeth Cymru i wneud gwybodaeth am eu holl opsiynau ÔI-16 mor hygyrch â phosibl.

I'r rhai sy'n dewis peidio â pharhau mewn addysg byddwn yn darparu'r lefel briodol o gefnogaeth i sicrhau eu bod yn pontio'n llyfn ac yn llwyddiannus i'r farchnad lafur drwy gyflogaeth uniongyrchol, prentisiaeth neu lwybrau hyfforddi arall. Bydd llawer yn pontio'n ddiraferth ond bydd hyn o bosibl yn her i rai ymadawyr ysgol bontio'n llwyddiannus, a byddwn yn nodi eu hanghenion yn gynnar yng Nghyfnod Allweddol 4 ac yn darparu lefel briodol o gefnogaeth iddynt hyd at eu cyrchfan gyntaf.

O ganlyniad i'n cefnogaeth, bydd gan ymadawyr ysgol fwy o gymhellant, byddant yn fwy cydnerth ac yn gallu ymroi'n well i'r dasg o gynllunio eu gyrfa. Byddant yn fwy ymwybodol o'r ystod lawn o gyfleoedd yn ogystal â'u diddordebau, sgiliau a'u rhinweddau eu hunain a byddant yn gwneud penderfyniadau yn fwy effeithiol mewn perthynas â chynllunio gyrfa.

Yn gryno, byddwn yn gweithio â disgyblion Cyfnod Allweddol 4 yng Nghymru i sicrhau bod pob un ohonynt yn y sefyllfa orau i bontio i'r 'cam nesaf' mewn modd gwybodus a llwyddiannus ar ddiwedd Mlwyddyn 11 a'u bod mewn gwell sefyllfa i gynllunio eu taith cynllun gyrfa tymor hwy. Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 4, bydd y disgyblion hynny sy'n manteisio ar ein cynnig:

- yn gwybod am dueddiadau'r farchnad lafur a pha swyddi a sectorau fydd yn cynyddu o ran galw yn y dyfodol
- wedi trafod a datblygu eu sgiliau/cymwyseddau rheoli gyrfa a'u sgiliau cyflogadwyedd i'w helpu i adeiladu cydnerthedd a'r gallu i addasu i ddelio â'r heriau a gyflwynir gan fyd gwaith sy'n newid yn barhaus
- yn gwybod am, ac yn deall, eu holl opsiynau ÔI-16
- yn ymwybodol o gefnogaeth barhaus ac yn cael hynny gan eu Cynghorydd Gyrfa er mwyn sicrhau eu bod yn pontio'n llwyddiannus i'r cam nesaf.

Sut y byddwn yn gwneud hyn?

Nodi Angen

Byddwn yn nodi dyheadau gyrfa a lefel yr angen am gefnogaeth gyda chynllunio gyrfa pob disgybl yng Nghyfnod Allweddol 4. Elfen allweddol yn y broses hon yw'r arolwg Gwirio Gyrfa. Byddwn yn parhau i ddarparu Gwirio Gyrfa ym mhob ysgol uwchradd prif ffrwd ac yn sicrhau bod pob disgybl yn cael cynnig gwasanaeth wedi'i deilwra drwy ddull cyfunol fel eu bod yn derbyn gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaedd perthnasol ac amserol wedi'i dargedu. Yn ystod 2019-20 byddwn yn ymchwilio i sut y gellir datblygu Gwirio Gyrfa yn gynnyrch sydd wedi'i alluogi'n ddigidol sy'n fwy cysylltiedig â'n gwefan newydd a llwyfannau digidol eraill.


Ochr yn ochr â Gwirio Gyrfa byddwn yn parhau i weithio'n agos ag ysgolion uwchradd a phartneriaid arall, gan gynnwys awdurdodau lleol a darparwyr darpariaeth amgen, i nodi anghenion disgyblion.

Mae Gwirio Gyrfa yn rhan bwysig o'r Model Darganfod Gyrfa ac fe'i defnyddir gan y Cynghorydd Gyrfa i lunio barn ar anghenion y disgyblion a'r gwasanaeth Gyrfa Cymru mwyaf priodol i ddiwallu'r angen hwnnw. Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, ein nod yw cyflwyno'r arolwg Gwirio Gyrfa mewn 100% o ysgolion uwchradd gydag o leiaf 80% o ddisgyblion yn cwblhau Gwirio Gyrfa cyn iddynt adael Blwyddyn 11.

Er mai prif bwrpas y data a gesglir yw canfod anghenion cyfarwyddyd gyrfaedd disgyblion, rydym yn cydnabod y gall y data hefyd fod yn werthfawr i ysgolion a phartneriaid. Felly, byddwn yn parhau i ddarparu adroddiad i ysgolion yn seiliedig ar y data a gasglwyd drwy gwblhau arolwg Gwirio Gyrfa a byddwn yn ymchwilio i'r ffordd orau o rannu gwybodaeth fanylach am angen a dyheadau disgyblion ag ysgolion a rhanddeiliaid.

Yn 2018-19 treialwyd mesur effaith drwy dreialu ail-redeg Gwirio Gyrfa mewn pedair ysgol uwchradd. Yn ystod 2019-20 byddwn yn astudio canlyniadau'r prawf ac yn asesu a oes cyfle i gyflwyno'r prawf yn ehangach i fesur effeithiolrwydd ein gwasanaeth.

Model Darganfod Gyrfa



Mae'r Model Darganfod Gyrfa wedi'n galluogi i ddatblygu dull cwbl gyfannol o ddarparu gwasanaethau mewn ysgolion uwchradd. Mae mabwysiadu rôl Swyddog Cyfrif wedi bod yn allweddol i'n llwyddiant ac mae rhanddeiliaid mewnol ac allanol wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cysyniad hwn. Mae darparu gwasanaethau cymysg, gan gyfuno cyswllt digidol ac wyneb yn wyneb â disgyblion, hefyd wedi ein galluogi ymhellach i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd sy'n diwallu angen yr unigolyn. Eleni, sef blwyddyn olaf Newid Bywydau, byddwn yn parhau i adeiladu ar lwyddiant gweithredu'r cynllun wrth i ni baratoi ar gyfer cam nesaf y cwmni.

Bydd pob disgybl yn ystod Cyfnod Allweddol 4 yn cael cynnig sesiwn grŵp ar ofynion a thueddiadau'r Farchnad Lafur, yn ogystal â'u hopsiynau Ôl-16. Bydd yr adnoddau ar gyfer y sesiynau hyn yn cael eu datblygu'n ganolog a byddant yn fodiwlaidd i ganiatáu i Gynghorwyr Gyrfa eu haddasu i gyd-fynd ag amserlenni ysgolion.

Bydd y sesiwn Opsiynau Ôl-16 yn amlinellu'n glir y llwybrau galwedigaethol ac academaidd sydd ar gael i bobl ifanc ar ddiwedd eu haddysg statudol. Byddwn yn rhoi darlun cytbwys a diduedd o'r opsiynau, gan hyrwyddo cydraddoldeb o ran parch rhwng llwybrau galwedigaethol ac academaidd. Bydd y sesiwn Gwybodaeth am y Farchnad Lafur yn cynnwys manylion am farchnadoedd lleol, cenedlaethol a byd-eang ac yn archwilio swyddi a sgiliau'r dyfodol. Yn seiliedig ar adborth gan gynghorwyr byddwn yn addasu'r cyflwyniadau ac yn cynhyrchu cyfres o adnoddau i ehangu cyfranogiad disgyblion a sicrhau'r effaith fwyaf. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyniadau y gellir eu defnyddio mewn gwasanaethau yn ogystal ag yn y dosbarth.

Byddwn yn sefydlu meincnod o ran cyfran y bobl ifanc yng Nghyfnod Allweddol 4 sy'n hunanwasanaethu yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy ryngweithio digidol. (Bydd yn adrodd ar Cyswllt Gyrfa Cymru, sgysiau ar-lein a'r rhai sydd wedi mewngofnodi i gyrfacymru.com).

Bydd o leiaf 75% o ddisgyblion wedi cael gwasanaeth wyneb yn wyneb erbyn iddynt adael Blwyddyn 11. (Gallai hwn fod yn gyfweiliad un i un neu sesiwn grŵp).

Altro-Evolve

Altro-Evolve yw'r teitl gweithio ar gyfer rhaglen newydd a gaiff ei chyflwyno yn ystod 2019-20. Mae'n nodi disgyblion nad ydynt yn gymwys ar gyfer rhaglen Sbardun ond yr aseswyd nad ydynt yn debygol o gyrraedd eu llawn botensial yn ystod Cyfnod Allweddol 4. Bydd disgyblion yn cael cynnig rhagor o gefnogaeth drwy hyfforddiant un-i-un, mentora, cyfres o sesiynau grŵp a phrofiadau cyflogwyr gyda'r nod o helpu i wella cymhelliant, codi dyheadau a chynyddu llesiant ac i sicrhau eu bod yn pontio'n llwyddiannus yn 16 oed.

Treialwyd y rhaglen yn 2018-19 a bydd yn cael ei gwerthuso yn ystod chwarter 1 a 2 yn 2019/20. Byddwn yn ymgynghori â disgyblion ynghylch effeithiolrwydd y rhaglen ac yn ystyried eu barn wrth ystyried cyflwyno'r rhaglen o bosibl yn y flwyddyn academaidd 2019/20. Mae bwriad i ehangu'r cynnig hwn yn ystod chwarter 3 a 4 a bydd yn cynnwys cyflwyno'r rhaglen mewn rhai ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Addysg Heblaw yn yr Ysgol ac Addysg Ddewisol yn y Cartref

Bydd disgyblion sy'n cael addysg y tu allan i leoliad yr ysgol yn cael cynnig cefnogaeth wyneb yn wyneb gan Gynghorydd Gyrfa dynodedig. Bydd hyn yn cynnwys pobl ifanc sy'n cael eu haddysgu mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion, lleoliadau amgen neu sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref.

Bydd pobl ifanc sy'n cael eu haddysgu yn y cartref ac sy'n hysbys i Gyrfa Cymru yn cael cynnig cyfle i ryngweithio wyneb yn wyneb â chynghorydd penodol. Byddwn yn gweithio â Llywodraeth Cymru i nodi cefnogaeth ychwanegol y gellid ei darparu i hwyluso olrhain cyrchfannau addysg ôl-statudol a chefnogi canlyniadau cadarnhaol i'r grŵp hwn.

Cefnogaeth ADY yng Nghyfnod Allweddol 4

Mae'r gefnogaeth glòs a ddarperir i ddisgyblion ADY i'w helpu ar y daith cynllunio gyrfa yn parhau yng Nghyfnod Allweddol 4. Bydd pob disgybl yn:

- cael cynnig o leiaf un cyfle i ryngweithio wyneb yn wyneb yn ystod Cyfnod Allweddol 4 gydag unrhyw gamau y cytunwyd arnynt yn cael eu cofnodi a'u rhannu yn yr adolygiadau cynllunio pontio
- cael cymorth eirioli barhaus gan eu Cynghorydd Gyrfa ar ôl gadael yr ysgol i gefnogi pontio'n ddiraffferth
- cymryd rhan mewn gwaith grŵp lle y bernir bod hynny'n briodol. (Bydd disgyblion ag ADY mewn ysgolion prif ffrwd yn cymryd rhan yn y cyflwyniad grŵp a gynhelir gan Gynghorydd Gyrfa yr ysgol)
- cael llyfryn i'w helpu i ystyried eu hopsiynau a'r camau sydd eu hangen i gefnogi pontio (ysgolion arbennig).

Bydd cynghorwyr yn mynychu adolygiadau cynllunio pontio ar gyfer y rhai sy'n gadael addysg statudol a chyfran o'r rhai nad ydynt yn gadael yr ysgol lle mae angen yn cael ei nodi. Rhoddir blaenoriaeth i adolygiadau'r bobl ifanc hynny nad ydynt wedi cael cysylltiad blaenorol â Gyrfa Cymru, y rhai lle y nodwyd eu hanghenion yn ddiweddar

a'r rhai na fydd modd diwallu eu hanghenion yn lleol o bosibl. Bydd cynghorwyr yn cyfrannu at y dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ym mhob adolygiad.

Bydd pob person ifanc ag ADY sy'n gadael yr ysgol i fynd i addysg bellach neu ddysgu seiliedig ar waith yn cael Cynllun Dysgu a Sgiliau, y cytunwyd arno â'r person ifanc a/neu ei deulu fel y bo'n briodol. Bydd y cynllun hwn yn nodi ei anghenion addysg a hyfforddiant a'r ddarpariaeth sy'n ofynnol i ddiwallu'r anghenion hynny. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu rhannu â'r darparwr ôl-ysgol. Pan fydd person ifanc am ddilyn cwrs addysg bellach, ond ni ellir diwallu ei anghenion yn y ddarpariaeth leol, bydd y cynghorydd yn cwblhau cais am gyllid ac yn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn unol â'r canllawiau technegol, i hwyluso cyfnod pontio didrafferth.

Cyflogwyr yn Ymgysylltu ag Ysgolion

Ein nod yn *Newid Bywydau* yw defnyddio ein profiad a'n harbenigedd, wedi'u hategu gan gysylltiadau sydd wedi'u hen sefydlu â chyflogwyr lleol a chenedlaethol, i godi proffil a darpariaeth partneriaethau cyflogwyr ag ysgolion ledled Cymru. Bydd hyn yn sicrhau y bydd dysgwyr yng Nghymru yn elwa o gymryd rhan mewn gweithgareddau 'byd gwaith' perthnasol ac addas i gyfoethogi eu dysgu a chefnogi pontio llwyddiannus.

Bydd gweithgaredd addysg a busnes yn canolbwyntio ar ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4, ond efallai y bydd ysgolion am ymgysylltu â grwpiau eraill o ddisgyblion yn seiliedig ar anghenion y sefydliad.

Sut y byddwn yn gwneud hyn?

Rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion gysylltu â chyflogwyr a datblygu eu gwybodaeth am y farchnad lafur wrth i ni:

- barhau i gynnig cyfle i bob ysgol uwchradd prif ffrwd ac ysgol arbennig gymryd rhan mewn o leiaf un gweithgaredd cysylltu â chyflogwyr. Bydd hyn yn cael ei drafod fel rhan o broses cynllunio'r Cytundeb Partneriaeth a bydd yn seiliedig ar arlwy o weithgareddau a fydd yn cynnwys: ffug gyfweiliadau, diwrnodau diwydiant/carwsél, ymweliadau safle, cyflwyniadau gan chyflogwyr, heriau gan chyflogwyr a mewnbwn penodol i bwnc. Bydd yr arlwy yn cael ei gyflwyno i ysgolion i gefnogi gwaith cynllunio a byddwn hefyd yn darparu canllawiau cyflenwi i gyflogwyr ar gyfer pob un o'r gweithgareddau hyn
- cyflwyno o leiaf 12 o ddigwyddiadau uchel eu proffil/heffaith yn canolbwyntio ar flaenoriaethau a sectorau twf rhanbarthol. Er ein bod yn cydnabod bod llawer o'r digwyddiadau hyn eisoes wedi'u hen sefydlu, byddwn yn adolygu'r trefniadau presennol er mwyn sicrhau sylw daearyddol priodol a, lle bo hynny'n bosibl, symud tuag at frandio cyson. Byddwn yn datblygu 'glasbrint' ar gyfer digwyddiadau mawr eu heffaith i sicrhau cysondeb
- cyflwyno o leiaf 10 o weminarau dan arweiniad chyflogwyr sy'n canolbwyntio ar y sectorau blaenoriaeth cenedlaethol (gofal, manwerthu, twristiaeth a bwyd a diod), yn ogystal â sectorau â blaenoriaeth a rennir ar gyfer y 3 partneriaeth sgiliau ranbarthol. Bydd gweminarau yn cael eu harwain gan 3 Cynghorydd Cyswllt Busnes pwrpasol yn gweithio ar sail fformat a brandio cyson

- treialu cyfres o sgysiau TED. Bydd y rhain yn seiliedig ar STEM a byddant yn rhan o brosiect STEM Gogledd a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yng Ngogledd-orllewin Cymru. Fodd bynnag, pe baent yn llwyddiannus gallent gael eu cyflwyno mewn rhannau eraill o Gymru, a chanolbwyntio ar ystod o bynciau cysylltiedig eraill, fel rhan o'n strategaeth ddigidol
- parhau i gryfhau'r Gyfnewidfa Addysg Busnes fel y prif gyfrwng i ysgolion uwchradd a chyflogwyr sy'n ceisio creu cysylltiadau sydd o fudd i bobl ifanc a chyflawni'r Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith. Ar ôl hyfforddi 120 o ysgolion yn ystod blynyddoedd 1 a 2 o gynllun cyflwyno 3 blynedd y Gyfnewidfa Addysg Busnes, byddwn yn hyfforddi'r ysgolion uwchradd prif ffrwd sy'n weddill yn ystod 2019-20
- sicrhau bod cyfanswm nifer y cyflogwyr sy'n rhan o'r Gyfnewidfa Addysg Busnes yn parhau'n 10,000 neu fwy a bydd nifer y cyflogwyr sydd â'r ystod lawn o ddata gweithgaredd yn cynyddu i o leiaf 3,500 erbyn diwedd y flwyddyn
- parhau i gefnogi ysgolion uwchradd a chyflogwyr i ddatblygu partneriaethau cynaliadwy, gan gynnwys cynnal o leiaf 70 o bartneriaethau Dosbarth Busnes a'r gweithgaredd clwstwr cysylltiedig
- cynhyrchu adnodd digidol i baratoi cyflogwyr i gyflwyno gweithgareddau mewn ysgolion. Er y bydd 'hyfforddiant partner gwerthfawr' yn dal i fod ar gael i unrhyw gyflogwr sy'n dymuno manteisio ar y gefnogaeth hon, rydym yn disgwyl i'r adnodd digidol fod yn fwy cost effeithiol i gyflogwyr
- adeiladu ar lwyddiant gwobrau 'Partneriaid Gwerthfawr' yn 2018-19 fel sail i gynllun cydnabod cyflogwyr ar gyfer 2019-20 â'r nod o wobrwyo o leiaf 50 o gyflogwyr
- ystyried effaith a chyfraniad Dosbarth Busnes Cymru a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru erbyn haf 2019 ynglŷn â'i rôl yn y dyfodol o fewn cyfres ehangach o weithgaredd ymgysylltu ag ysgolion/cyflogwyr fydd yn cael ei ddatblygu gan y sefydliad. O'r herwydd, rydym yn bwriadu defnyddio cwmni arbenigol i gynnal ymchwil annibynnol ag ysgolion ledled Cymru i lywio natur a chwmpas y gwasanaeth busnes addysg sydd ei angen. Bydd hyn yn helpu i lywio unrhyw gynigion a wneir i Lywodraeth Cymru
- trefnu Cynhadledd Addysg. Byddwn yn cyflwyno symposiwm i alluogi ysgolion i arddangos arfer gorau wrth ymgysylltu â chyflogwyr ar draws y sector
- gweithio'n agos â Busnes Cymru i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd a gynigir gan eu cyswllt nhw, a'n cyswllt ni â chyflogwyr.

Sbardun

Byddwn yn cefnogi'r bobl ifanc hynny a nodwyd gan awdurdodau lleol fel y rhai sydd fwyaf agored i fod yn NEET i symud ymlaen yn gadarnhaol drwy barhau i ddarparu rhaglenni Sbardun. Drwy ystod o ymyriadau a fydd yn ategu, ond nid yn dyblygu, gwasanaethau prif ffrwd byddwn yn ceisio lleihau nifer y bobl ifanc hynny nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Byddwn yn parhau i gyflwyno rhaglen Sbardun ar draws yr holl Awdurdodau Lleol yng Nghymru mewn partneriaeth â buddiolwyr eraill prosiectau canlynol Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF):

- Cynnydd – Gorllewin Cymru

- Cynnydd – Dwyrain Cymru
- Ysbrydoli i Gyflawni - Gorllewin Cymru a'r Cymoedd
- Ysbrydoli i Gyflawni – Dwyrain Cymru
- TRAC – Dwyrain Cymru
- TRAC – Gorllewin Cymru

Nodir disgyblion o Flwyddyn 7 i Flwyddyn 11 drwy brosesau Ymyrraeth Gynnar y cytunir arnynt yn lleol fel rhai sydd angen cefnogaeth i'w cynnal mewn addysg. Er y gall y dull cyflwyno amrywio i weddu i angen lleol, mae cynnig Sbardun yr un peth ar draws yr holl awdurdodau lleol.

Mae yna dair elfen i Sbardun, sef:

- Targed 7-11, sy'n rhaglen o sesiynau grŵp yn seiliedig ar yrfa ac ymyrraeth un-i-un a ddarperir yng nghyd-destun cynllunio gyrfa a gosod nodau. Er enghraifft, bydd meithrin hyder yn canolbwyntio ar feithrin hyder yn y gweithle; bydd sgiliau cyfathrebu yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau cyfathrebu effeithiol ar gyfer yr amgylchedd gwaith.
- Cysylltu â Chyflogwyr, a all gynnwys cyflogwyr yn ymweld ag ysgolion, mynychu digwyddiadau a drefnir yn allanol neu ddisgyblion yn ymweld â chyflogwyr.
- Lleoliadau Gwaith wedi'u teilwra y gellir eu cyflwyno i ddisgyblion penodol ym Mlynnyddoedd 10 ac 11.

Strategaeth Ymadael ar gyfer Sbardun / ESF:

Rydym wedi dechrau gweithio ar Strategaeth Ymadael ar gyfer prosiectau a ariennir gan yr ESF, gan ystyried yr ailstrwythuro mewnol, ymestyn y prosiectau o bosibl a datblygu contract Cymru'n Gweithio a allai arwain at alw cynyddol ar lefelau staffio cynghorwyr gyrfaoedd o ffynonellau arall.

Bydd y strategaeth yn ddogfen waith a fydd yn cael ei hadolygu bob chwarter. Mae trafodaethau cychwynnol wedi canolbwyntio ar nodi atebion ac amserlenni adleoli staff ar bob un o'r prosiectau, ynghyd â chynigion ar sut y gallai elfennau mwy llwyddiannus y rhaglen gael eu cynnal ac o bosibl eu hintegreiddio i'n darpariaeth craidd, *Newid Bywydau*, pan fydd y prosiectau'n dod i ben.

Cyswllt Gyrfa Cymru / Sgwrs Fyw

Gall disgyblion oedran ysgol ar ba bynnag gam yn eu bywyd ysgol neu goleg gael gafael ar gymorth drwy ein llinell ffôn genedlaethol, Cyswllt Gyrfa Cymru, yn ogystal ag ymgysylltu â'n cynghorwyr drwy Sgwrs Fyw. Byddwn yn hyrwyddo'r gwasanaethau hyn i gyd-fynd â chyfnodau pontio neu weithgareddau allweddol yn y calendr addysg, megis ffug arholiadau, diwrnodau agored i golegau a chweched dosbarth, digwyddiadau Seren, digwyddiadau Opsiynau Ôl-16 mewn ysgolion a nosweithiau rhieni.

Ymgyrchoedd, gan gynnwys Teledu Gyrfa Cymru

Bydd ymgyrchoedd ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 yn tanlinellu'r negeseuon allweddol a gyflwynir yn ein gweithdai rhyngweithiol yn yr ysgol. Bydd ffocws ar Wybodaeth am y Farchnad Lafur ac Opsiynau Ôl-16 ac ymgyrch wedi'i thargedu ar gyfer Seren a'r Gyfnewidfa Addysg Busnes.

Cefnogaeth Pontio i Ymadawyr Ysgol

Bydd holl ddisgyblion Blwyddyn 11 yn cael cefnogaeth yn seiliedig ar lwyth achosion gan eu Cynghorydd Gyrfa tra byddant yn yr ysgol. Fodd bynnag, lle mae'r cynghorydd yn nodi bod gan ddisgyblion Blwyddyn 11 gyrchfan arfaethedig wedi'i chadarnhau sef Dysgu Seiliedig ar Waith, Prentisiaeth, Cyflogaeth neu Hunangyflogaeth, neu'n debygol o fod yn NEET, trefnir eu bod yn pontio'n amserol gyda chefnogaeth i dîm Cymru'n Gweithio.

Bydd 100% o ddarpar ymadawyr ysgol yn cael eu nodi gan y Cynghorydd Gyrfa yn yr ysgol. Bydd 'trosglwyddiad cynnes' at gynghorydd Cymru'n Gweithio yn digwydd yn ystod tymor yr Haf. Bydd y trosglwyddiad cynnes yn cynnwys cyflwyno'r dysgwr wyneb yn wyneb i gynghorydd Cymru'n Gweithio tra bod y cleient yn dal yn yr ysgol. Bydd hyn naill ai ar ffurf trosglwyddiad un i un neu drwy sesiwn grŵp. Yna bydd darpar ymadawyr yn cael eu cefnogi tuag at eu cam nesaf gan rywun y maent eisoes wedi'i gyfarfod ac wedi dechrau meithrin perthynas â nhw. Bydd hwn hefyd yn gyfle i gynllunio'r camau nesaf ar ôl i'r cyfnod arholi ddod i ben.

Mae strategaeth bontio fanwl wrthi'n cael ei chwblhau a bydd yn cael ei chyflwyno yn ystod mis Mawrth ac Ebrill.

2.5: Cefnogi'r Daith Cynllunio Gyrfa Ôl-16

Mae pob person ifanc yng Nghymru sydd wedi gadael yr ysgol yn ymddangos yn y Data 5 Haen hyd at 18 oed.

- **Haen 5:** Pobl ifanc sy'n ymwneud yn llwyddiannus ac yn gadarnhaol ag Addysg Bellach, Gwaith neu Hyfforddiant.
- **Haen 4:** Pobl ifanc sy'n ymwneud ag Addysg, Gwaith neu Hyfforddiant ond sydd mewn perygl o beidio â dal ati.
- **Haen 3:** Pobl ifanc ddi-waith 16 a 17 oed sy'n NEET ond wrthi'n chwilio am gyfleoedd Addysg, Gwaith neu Hyfforddiant gyda chefnogaeth Gyrfa Cymru.
- **Haen 2:** Pobl ifanc ddi-waith 16 a 17 oed, nad ydynt ar gael neu'n methu â chael mynediad at Addysg, Gwaith na Hyfforddiant.
- **Haen 1:** Pobl ifanc y mae eu lleoliad bellach yn anhysbys.

Bydd ein rôl o ran cynnal a chadw y data 5 haen yn parhau eleni. Defnyddir y data pwysig hyn i gefnogi'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid drwy ddarparu gwybodaeth ac adroddiadau allweddol i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Mae'r data hefyd yn rhoi dealltwriaeth werthfawr o dueddiadau ymgysylltu â phobl ifanc rhwng 16 a 18 oed, eu symudiadau rhwng haenau yn ogystal â'u dyheadau galwedigaethol.

Rydym yn ymwybodol bod cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru yn bwriadu ailgyhoeddi canllawiau'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid i awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn fusnes sydd i ddod ac felly rydym yn disgwyl y bydd rhai newidiadau yn ystod y flwyddyn i'r data Model 5 Haen ac i'r rôl y mae Gyrfa Cymru yn ei chwarae o fewn y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Tan hynny, byddwn yn cadw'r arfer cyfredol sy'n ymwneud â darparu data Model 5 Haen a mynediad i'r hybiau data i bob awdurdod lleol yng Nghymru.

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod byddwn yn cydweithredu â chydweithwyr yng Ngogledd Cymru drwy raglen beilot a fydd yn ceisio ehangu'r defnydd o'r Model 5 Haen i bobl ifanc 18-25 oed. Bydd y peilot hefyd yn edrych ar ffyrdd o wella arferion gweithio ar y cyd ac yn anochel bydd hyn yn arwain at welliannau mewn atgyfeiriadau a chefnogaeth i'r grŵp oedran 16-17 cyfan.

2.6: Ymadawyr Ysgol yn Parhau mewn Addysg

Yn 16 oed, am y tro cyntaf yn eu bywydau, bydd ymadawyr ysgol yn gwneud y penderfyniad allweddol ynghylch lle maen nhw am barhau â'u haddysg yn ogystal â'r cwrs astudio y maen nhw am ei ddilyn. Bydd y cwrs astudio a ddewisir yn dylanwadu ar eu llwybr gyrfa yn y dyfodol a'n nod yw cefnogi myfyrwyr i fod yn hyderus eu bod wedi gwneud y dewis cywir. Drwy wneud hyn byddwn hefyd yn helpu i sicrhau'r budd mwyaf o'r buddsoddiad cyllido a wneir mewn addysg a hyfforddiant Ôl-16.

Erbyn diwedd eu hamser yn y 6^{ed} Dosbarth neu Goleg AB, bydd y dysgwyr hynny sy'n manteisio ar ein cynnig yn:

- dysgu mwy am y gefnogaeth a ddarperir gan Gyrfa Cymru a sut i gysylltu â ni
- darganfod mwy am opsiynau ôl-18 i gynnwys Prentisiaethau Uwch a llwybrau galwedigaethol.

Eleni byddwn yn cyflwyno cynnig 6ed Dosbarth cyson ledled Cymru i ategu'r cynnig AB Cymru gyfan a gyflwynwyd ym mis Medi 2018. Y nod yw datblygu cynnig digidol yn bennaf i fyfyrwyr yn y ddau leoliad addysgol.

Sut y byddwn yn gwneud hyn?

Bydd y gwasanaethau canlynol ar gael i fyfyrwyr 6^{ed} Dosbarth ac AB:

- Bydd myfyrwyr 6^{ed} Dosbarth ac AB yn dysgu mwy am y gefnogaeth y gall Gyrfa Cymru ei darparu a sut i gysylltu yn ystod gweithgareddau sefydlu ar ddechrau Blwyddyn 12 neu Flwyddyn 1 yn y coleg. Bydd gan bob sefydliad gynghorydd cyswllt.
- Bydd system galw yn ôl ar gael i fyfyrwyr 6ed Dosbarth a Cholegau AB sy'n cysylltu â ni drwy Cyswllt Gyrfa Cymru neu Sgwrs Fyw am wybodaeth neu gyngor lle mae angen am gyfarwyddyd yn cael ei nodi.
- Bydd adnodd digidol yn cael ei gynhyrchu ar Ddewisiadau Amgen yn lle AU a bydd yn cael ei ddsbarthu i ddisgyblion nad ydynt yn bwriadu mynd i'r

Brifysgol. Yn ogystal, cynigir modiwlau Sgiliau i Lwyddo i gefnogi datblygu sgiliau cyflogadwyedd.

- Bydd gan ddisgyblion 6ed Dosbarth a myfyrwyr Colegau AB fynediad at yr amserlen o weminarau ac ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol fydd ar gael yn gyffredinol a lle bo angen, bydd y Cynghorydd Gyrfa yn hwyluso mynediad at y rhain, e.e. drwy wneud adrannau yn ymwybodol o weminarau perthnasol y gellid eu gwyllo fel grŵp dosbarth neu bod athrawon/darlithwyr yn rhoi gwybod i fyfyrwyr a'u bod yn eu gwyllo yn eu hamser eu hunain.
- Er mwyn gwneud diagnosis gwell o anghenion rheoli gyrfa disgyblion, byddwn yn ceisio datblygu offer diagnostig a fydd yn caniatáu i ni dargedu gwasanaethau yn well i fyfyrwyr 6^{ed} Dosbarth ac AB.
- Bydd y rhai y nodwyd eu bod mewn perygl o adael neu o beidio â symud ymlaen yn gadarnhaol yn gymwys i gael cefnogaeth wyneb yn wyneb gan y Cynghorydd Gyrfa ac yn cael eu hychwanegu at lwyth achos y cynghorydd i sicrhau gwasanaethau priodol i wella cynaliadwyedd a sgiliau rheoli gyrfa. Gallai hyn fod o ganlyniad i atgyfeiriad drwy'r 6^{ed} Dosbarth neu'r coleg neu hunanatgyfeiriad drwy ystod o opsiynau, e.e. Cyswllt Gyrfa Cymru, Sgwrs Fyw, cyflwyno mewn Canolfan Gyfaeoddd.
- Bydd disgyblion sydd â'u bryd ar adael yr ysgol a mynd i mewn i'r farchnad lafur yn cael eu cefnogi gan gynghorwyr Cymru'n Gweithio i helpu i nodi unrhyw rwystrau i ddilyniant ac a ydynt yn gymwys i gael darpariaeth Cymorth Cyflogadwyedd (Cymorth Gwaith Cymru). Bydd darpar ymadawyr ysgol a nodwyd yn cael eu cefnogi tuag at eu cam nesaf drwy wasanaeth Cymru'n Gweithio.
- Bydd myfyrwyr sydd â'u rbyd ar adael y coleg a mynd i'r farchnad lafur yn cael eu cefnogi gan eu cynghorydd coleg yn y lle cyntaf ac yn cael eu cyfeirio at gynghorwyr Cymru'n Gweithio (os yw'n briodol) i helpu nodi unrhyw rwystrau i ddilyniant ac a ydynt yn gymwys i gael darpariaeth Cymorth Gwaith Cymru.
- Yn dilyn adroddiad diweddar Estyn ar ddarpariaeth Cyfnod Allweddol 5 a amlygodd yr angen i hysbysu disgyblion Cyfnod Allweddol 5 a myfyrwyr AB am gyfleoedd prentisiaeth byddwn yn cynnal ymgyrch wedi'i thargedu ar brentisiaethau ar gyfer myfyrwyr Cyfnod Allweddol 5.

Cefnogaeth i fyfyrwyr AB sy'n dymuno pontio i Gyflogaeth neu Hyfforddiant

Yn ystod y flwyddyn byddwn yn ymchwilio i sut y gall gwasanaeth newydd Cymru'n Gweithio gefnogi ac ategu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan gynghorwyr gyrfa addysg yn y sector AB. Datrysiaid digidol yn bennaf yw'r gwasanaeth sy'n cael ei gynig ar hyn o bryd gyda chynghor wyneb yn wyneb yn cael ei ddarparu gan gynghorwyr penodol i ddysgwyr sydd mewn perygl o roi'r gorau iddi. Rydym yn gobeithio defnyddio adnoddau Cymru'n Gweithio i ategu ac i wella'r gwasanaeth hwn ar gyfer y dysgwyr AB hynny sy'n bwriadu dechrau cyflogaeth neu hyfforddiant. Byddwn yn ymchwilio i sut (neu a ellir) cefnogi hyn o fewn adnodd cyfredol Cymru'n Gweithio. Bydd y gwaith ymchwilio yn digwydd yn ystod mis Ebrill - Gorffennaf ar y cyd â thîm rheoli Cymru'n Gweithio yn Llywodraeth Cymru a bydd yn seiliedig ar y

galw am gefnogaeth a'r adnoddau sydd ar gael a bydd yn ymwybodol o'r cynlluniau ar gyfer y cyfeiriad yn y dyfodol yn y ddogfen Newid Bywydau.

Seren

Byddwn yn parhau i weithio â Rhwydwaith Seren a Llywodraeth Cymru dros y flwyddyn nesaf i sefydlu a chytuno ar gefnogaeth briodol i ddisgyblion sy'n cymryd rhan yn y prosiect, gan gynnwys cynnig digidol newydd i fyfyrwyr Seren.

Fel y gwnaethom yn 2018-19, byddwn yn cefnogi'r gynhadledd genedlaethol. Byddwn hefyd yn cefnogi digwyddiad gyrfaedd Seren yng Ngogledd Cymru ym mis Chwefror 2020, *Tu Hwnt i Seren*. Bydd ein cefnogaeth yn cynnwys ymgysylltu â chyflogwyr priodol i gefnogi'r digwyddiad a nodi ystod ehangach o gyfleoedd i fyfyrwyr Seren. Byddwn hefyd yn cynnal digwyddiad tridiau yng Nghaergrawnt ac yn rhannu'r hyn a ddysgwyd ar draws y sefydliad.

Cefnogaeth ADY yng Nghyfnod Allweddol 5

- Bydd pob person ifanc ag ADY yn cael cynnig o leiaf ddwy sesiwn ryngweithio wyneb yn wyneb yn ystod Cyfnod Allweddol 5. Bydd unrhyw gamau y cytunir arnynt yn cael eu cofnodi a'u rhannu yn yr adolygiadau cynllunio pontio.
- Bydd pobl ifanc ag ADY mewn ysgolion prif ffrwd yn cymryd rhan yn y cyflwyniad grŵp a wneir gan Gynghorydd Gyrfa yr ysgol. Cynigir grwpiau i ysgolion arbennig lle mae hyn yn briodol.
- Bydd cynghorwyr yn mynychu adolygiadau cynllunio pontio ar gyfer y rhai sy'n gadael addysg statudol a chyfran o'r rhai nad ydynt yn gadael ysgol. Rhoddir blaenoriaeth i'r bobl ifanc hynny lle nodwyd eu hanghenion yn ddiweddar, i'r rhai ag anghenion cymhleth, i'r rhai sydd yn eu blwyddyn olaf ond un yn yr ysgol ac i'r rhai nad oes modd o bosibl diwallu eu hanghenion yn lleol.
- Bydd pob person ifanc ag ADY sy'n gadael yr ysgol i fynd i addysg bellach, addysg uwch neu ddysgu yn seiliedig ar waith yn derbyn Cynllun Dysgu a Sgiliau, y cytunwyd arno â'r person ifanc a/neu ei deulu fel sy'n briodol. Bydd y cynllun hwn yn nodi eu hanghenion addysg a hyfforddiant a'r ddarpariaeth sydd ei angen i ddiwallu'r anghenion hynny. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu rhannu â'r darparwr ôl-ysgol.
- Pan fydd person ifanc am fynd i addysg bellach, ond ni ellir diwallu ei anghenion yn y ddarpariaeth leol, bydd y cynghorydd yn cwblhau cais am gyllid ac yn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn unol â'r canllawiau technegol, i hwyluso pontio'n ddidrafferth.

2.7: Gweithio gyda Rhieni

Rydym yn cydnabod y rôl bwysig y mae rhieni yn ei chwarae wrth helpu i gynllunio dyfodol person ifanc. Mae angen mynediad ar rieni at y wybodaeth ddiweddaraf am yrfaedd a'r farchnad lafur i'w galluogi i gefnogi eu plentyn yn well.

I helpu hwyluso hyn, byddwn yn:

- darparu llyfryn i holl rieni pobl ifanc ym Mlwyddyn 9 yn amlinellu'r gefnogaeth a ddarperir gan Gyrfa Cymru a sut y gall rhieni gefnogi eu plant yn effeithiol.
- darparu llyfryn gwahaniaethol i rieni pobl ifanc mewn ysgolion arbennig yn amlinellu'r gefnogaeth a ddarperir gan Gyrfa Cymru a'r broses cynllunio pontio.
- mynychu un noson/digwyddiad rhieni yng Nghyfnod Allweddol 3 i drafod opsiynau. Byddwn yn rhoi cyfle i ysgolion ymgysylltu â chyflogwyr allweddol a all gefnogi digwyddiadau opsiynau.
- mynychu un noson/digwyddiad rhieni yng Nghyfnod Allweddol 4 i godi ymwybyddiaeth o'r holl opsiynau. Bydd o leiaf 90% o ysgolion prif ffrwd yn cael eu cefnogi mewn nosweithiau/digwyddiadau rhieni yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4.
- gweithio ag ysgolion i sicrhau presenoldeb Gyrfa Cymru ar holl wefannau ysgolion gyda chynnwys a chyfeiriadau priodol i rieni.
- cynhyrchu pecyn cyfathrebu digidol ar gyfer rhieni pobl ifanc ym Mlwyddyn 8/9 i gefnogi dewis opsiynau gan ddefnyddio sianelau cyfathrebu ysgolion.
- mynychu cyfarfodydd cynllunio pontio ar gyfer pobl ifanc ag ADY gan ddarparu cyngor a chyfarwyddyd i rieni a'u cyfeirio at adnoddau priodol.
- datblygu cefnogaeth wedi'i thargedu i rieni pobl ifanc sy'n cael eu haddysgu yn y cartref fel rhan o drafodaethau parhaus â Llywodraeth Cymru.
- defnyddio canlyniad arolwg rhieni a gynhaliwyd yn ystod 2018/19 i ddatblygu a thargedu rhieni ymhellach drwy ymgyrchoedd a chyfryngau cymdeithasol er mwyn iddynt allu cefnogi yn well y penderfyniadau y mae angen i'w plant eu gwneud
- sefydlu grŵp ffocws o rieni ac ymgyngori ar unrhyw ddatblygiadau ac adnoddau yn y dyfodol i'w helpu i gefnogi eu plant â'r dewisiadau y mae'n rhaid iddynt eu gwneud
- adolygu a chyflwyno i sicrhau cyfranogiad ehangach y rhaglenni peilot a gynhaliwyd eleni lle bu Cynghorwyr Gyrfaoedd ar gael ar gyfer sesiynau sgwrsio byw â rhieni o'u hysgolion i gyd-fynd â nosweithiau rhieni
- cynnal ymgyrchoedd ar adegau penodol o'r flwyddyn gyda rhieni yn un o'r cynulleidfaoedd targed
- gweminarau peilot wedi'u targedu ar gyfer rhieni disgyblion ym Mlwyddyn 7, 8 a 9 ar Sectorau Twf a Swyddi yn y Dyfodol.

2.8: Cefnogaeth i Ymadawyr Ysgol sy'n Dewis Peidio â Pharhau mewn Addysg

Darperir cefnogaeth gan dîm Cyngori Cymru'n Gweithio i tua 12% o ymadawyr ysgol sy'n dewis peidio â pharhau mewn addysg. Bydd ymadawyr ysgol ym Mlwyddyn 11 sy'n bwriadu ceisio ymuno â'r farchnad lafur, sicrhau prentisiaeth neu ddarpariaeth cymorth cyflogadwyedd yn cael eu cyfeirio at gefnogaeth pontio gan dîm Cymru'n Gweithio drwy drosglwyddiad cynnes cyn diwedd Blwyddyn 11. Bydd disgyblion yn gweithio â Chynghorwyr Cymru'n Gweithio i nodi'n llawn unrhyw rwystrau i ddilyniant

a pha mor gymwys ydynt ar gyfer darpariaeth Cymorth Gwaith Cymru neu Addysg, Gwaith neu Hyfforddiant priodol arall.

Sut rydym yn bwriadu cefnogi pobl ifanc mewn darpariaeth Cymorth Gwaith Cymru (Dysgu yn seiliedig ar waith yn flaenorol)?

Noder: Adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, nid yw'n hysybys eto a fydd rhaglen Cymorth Gwaith Cymru yn cychwyn cyn diwedd y flwyddyn fusnes hon. Gan ragweld y gallem fod yn cefnogi atgyfeiriadau i'r rhaglen newydd yn ystod mis Ionawr - Mawrth 2020, rydym wedi nodi isod sut rydym yn bwriadu cefnogi pobl ifanc ar raglen Cymorth Gwaith Cymru. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i gefnogi pobl ifanc sy'n NEET neu sy'n pontio o addysg yn unol â phrosesau a gweithdrefnau presennol. Byddwn yn parhau i gefnogi'r Model 5 Haen ac yn atgyfeirio at ddarparwyr presennol (gwaddol) Dysgu yn seiliedig ar waith drwy'r ffurflenni Cyfeirio Hyfforddeiaeth.

Mae ein gwaith â ddysgwyr Cymorth Gwaith Cymru yn ystod y Flwyddyn Fusnes 2019-20 yn perthyn i ddau faes penodol:

- i. Cefnogaeth i ddysgwyr sy'n pontio o raglenni Dysgu yn seiliedig ar waith blaenorol at Gymorth Gwaith Cymru (neu'r ddarpariaeth fwyaf priodol).
- ii. Cefnogaeth i ddysgwyr sy'n methu â chynnal ymgysylltiad â rhaglenni Cymorth Gwaith Cymru neu sy'n parhau i fod angen cefnogaeth ar ôl eu cwblhau ac sy'n cyflwyno neu'n cael eu cyfeirio'n ôl ar gyfer cefnogaeth Cymru'n Gweithio.

Cefnogaeth i ddysgwyr Dysgu Seiliedig ar Waith sy'n pontio o raglenni blaenorol Dysgu Seiliedig ar Waith

Cynlluniwyd y gwaith hwn yn wreiddiol ar gyfer mis Ebrill - Mai 2019 i gyd-fynd â dechrau Cymru'n Gweithio o 1 Mehefin. Mae'r trefniadau hyn bellach wedi'u gohirio nes bod y ddarpariaeth cyflogadwyedd dan gontract wedi'i dyrannu o dan yr ymarfer caffael newydd. Rydym yn rhagweld y byddwn yn dechrau ar yr ymarfer o gefnogi pontio rhwng darparwyr blaenorol a chontractwyr newydd Cymorth Gwaith Cymru ddeufis cyn dechrau'r ddarpariaeth dan gontract newydd yn unol â'r cynllun gwreiddiol. Rydym yn disgwyl gweld oddeutu 2,500 o hyfforddeion yn ystod y cyfnod hwn (yn seiliedig ar ffigurau dangosol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr amserlen bontio wreiddiol sef 1 Mehefin ar gyfer lansio'r rhaglen newydd).

Mae Map Proses ar gyfer sut y gellir rheoli hyn wedi'i gynhyrchu a bydd yn cael ei gadarnhau gan Lywodraeth Cymru unwaith y bydd yr ymarfer caffael newydd wedi'i gwblhau. Gellir gweld crynodeb o'r gweithgareddau yn ystod y cyfnod pontio isod (noder: bydd angen cytuno ar amserlenni a therfynau amser unwaith y byddwn yn ymwybodol o ddyddiad lansio'r ddarpariaeth newydd):

Yn ystod y cyfnod pontio, bydd Gyrfa Cymru yn:

- cysylltu â darparwyr presennol Dysgu Seiliedig ar Waith i sicrhau mynediad digonol i hyfforddeion presennol Dysgu Seiliedig ar Waith lle mae'r darparwr yn asesu NAD ydynt yn debygol o gwblhau neu adael â chanlyniad cadarnhaol cyn dechrau'r ddarpariaeth newydd
- enwebu Cynghorwyr Gyrfa penodol ar gyfer pob darparwr Dysgu Seiliedig ar Waith a sicrhau bod digon o adnoddau'n cael eu dyrannu i ganiatáu cyfweiliadau un-i-un gyda phob dysgwr yn ystod y cyfnod pontio allweddol
- cytuno ar amserlen apwyntiadau ar gyfer yr holl ddysgwyr a nodir
- cytuno â'r darparwr Dysgu Seiliedig ar Waith ar drefniadau cyswllt â'r hyfforddeion fel eu bod yn deall beth sy'n digwydd a pham
- cynnal cyfweiliadau cyfarwyddyd 1-1 â'r holl hyfforddeion, gan ymgorffori gwybodaeth a ddarperir gan y darparwr Dysgu Seiliedig ar Waith yn ogystal â gwybodaeth a gasglwyd o'r cyfweiliadau. Defnyddir y wybodaeth hon i asesu anghenion cymorth yr hyfforddai a bydd yn arwain at gytundeb o ran 'categorioidio'
- gwneud atgyfeiriadau a chyfeiriadau priodol fel sy'n briodol i anghenion unigol. Gallai hyn fod ymlaen at ddarpariaeth Cymorth Gwaith Cymru. Yn yr achosion hynny, cynhyrchir Adroddiad Asesu a Chyfeirio manwl. Gwneir atgyfeiriadau at brentisiaethau neu ddarpariaeth arall hefyd o ganlyniad i'r cyfweiliadau hyn fel sy'n briodol
- cadw cofrestr o atgyfeiriadau a phresenoldeb fel y gellir dilyn i fyny a chynnig cefnogaeth i'r rhai sydd ddim yn mynychu.

POBL IFANC 16-17 OED SY'N NEET

Mae cyfran o bobl ifanc nad ydynt yn pontio'n llwyddiannus i Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant yn syth ar ôl gadael ysgol. Mae'r cleientiaid NEET ac Anhysbys hyn yn disgyn i dri chategori o'r Model Ymgysylltu 5 Haen:

- **Haen 3** Pobl ifanc ddi-waith 16 a 17 oed sy'n NEET ond sydd wrthi'n chwilio am gyfleoedd Addysg, Gwaith neu Hyfforddiant gyda chefnogaeth Gyrfa Cymru.
- **Haen 2:** Pobl ifanc ddi-waith 16 a 17 oed, nad ydynt ar gael neu'n methu â chael mynediad at Addysg, Gwaith na Hyfforddiant.
- **Haen 1:** Pobl ifanc y mae eu lleoliad bellach yn anhysbys.

Gweithwyr Arweiniol: Pennir Gweithwyr Arweiniol i gleientiaid ym mhob un o'r haenau uchod fel a ganlyn:

- Haen 3: Pennir Gweithiwr Arweiniol o Gyrfa Cymru mewn 100% o achosion
- Haen 2: Pennir Gweithiwr Arweiniol mewn 100% o achosion ac fel rheol caiff ei bennu o'r Gwasanaeth Ieuenctid
- Haen 1: Pennir Gweithiwr Arweiniol gan y Cydlynnydd Ymgysylltu a Datblygu pan fo hynny'n briodol.

Pa gefnogaeth yr ydym yn bwriadu ei darparu i gleientiaid Haen 3?

Byddwn yn cefnogi pobl ifanc yn Haen 3 (hyd at 18 oed) i ymuno neu ailymuno ag Addysg, Gwaith neu Hyfforddiant drwy wasanaeth Cynghori Cymru'n Gweithio. Bydd Anogwyr Cyflogadwyedd a Chynghorwyr Gyrfa dynodedig Cymru'n Gweithio yn gweithio â phobl ifanc mewn ystod o leoliadau ledled Cymru i sicrhau bod y gwasanaeth ar gael mewn man ac ar amser sy'n gweddu i'w hanghenion. Drwy ddefnyddio canolfannau gyrfaoedd presennol, lleoliadau allgymorth a chanolfannau wedi'u cydleoli, byddwn yn sicrhau bod cefnogaeth Cymru'n Gweithio yn hygyrch i bawb sydd ei angen o fewn pellter teithio rhesymol. Bydd hyn yn cael ei ategu gan ddigwyddiadau dros dro yn y gymuned ehangach a mynediad drwy Ganolfannau Gwaith, llyfrgelloedd a phwyntiau mynediad arall.

Bydd map rhyngweithiol a fydd ar gael o fis Ebrill 2019 yn caniatáu i bobl ifanc nodi pwyntiau mynediad at gefnogaeth Cymru'n Gweithio mewn lleoliad sy'n addas iddyn nhw. Yn ystod 2019-20 byddwn yn anelu at 'dyfu' y ddarpariaeth allgymorth hon 20%.

Yn ystod 2019-20 bydd Cynghorwyr Gyrfa ac Anogwyr Cyflogadwyedd Cymru'n Gweithio yn cefnogi cleientiaid NEET 16-17 oed yn y ffyrdd a amlinellir isod.

Byddwn yn:

- cynnal asesiad diagnostig o angen â phawb sy'n cysylltu o'u gwirfodd neu sy'n cael eu cyfeirio atom ac yn rhoi cefnogaeth briodol iddynt gymryd camau gweithredu, gan gynnwys eu cyfeirio at ddarpariaeth leol arall benodol
- cynnal asesiad manwl o'r rhwystrau sy'n wynebu pobl ifanc ac yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i adeiladu darlun o lefel y gefnogaeth y bydd ei hangen arnynt wrth symud ymlaen (Asesiad Manylach o Anghenion Cymorth)
- cefnogi cwsmeriaid sydd angen y cymorth lleiaf posibl i bontio'n llwyddiannus i wait neu hyfforddiant drwy'r rhaglen Cymorth Camau. Mae hon yn rhaglen cefnogi cwsmeriaid sydd angen rhywfaint o gefnogaeth i bontio'n llwyddiannus i waith neu hyfforddiant ond nad yw eu hanghenion cymorth yn gwarantu eu cyfeirio at ddarparwyr Haen 2 nac at Gymorth Gwaith Cymru. Rhagwelir y byddwn yn cefnogi oddeutu **900** o bobl ifanc drwy raglen Camau y flwyddyn nesaf
- cymryd camau adfer â chleientiaid Cymorth Gwaith Cymru sydd mewn perygl o fod yn NEET neu sydd wedi rhoi'r gorau iddi yn ystod eu rhaglen hyfforddi. Yn ystod y flwyddyn i ddod, bydd gwybodaeth am hyfforddeion sydd wedi methu â chynnal ymgysylltiad â'u darparwr Cymorth Gwaith Cymru yn cael eu cyfeirio at Gyrfa Cymru drwy'r ddolen Adborth rhwng darparwyr Cymorth Gwaith Cymru a Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod cleientiaid Cymorth Gwaith Cymru sy'n methu â chynnal ymgysylltiad yn cael eu hamlygu i Gyrfa Cymru mewn modd amserol a chyson fel y gallwn geisio eu hailymgysylltu â chefnogaeth gan wasanaeth Cymru'n Gweithio ac yn y pen draw eu hailymgysylltu â darpariaeth briodol
- gwneud atgyfeiriadau priodol at ddarparwyr Cymorth Gwaith Cymru gan ymgorffori asesiad o anghenion cymorth yn seiliedig ar Fodel Categoriiddio Gyrfa Cymru. Mae'r wybodaeth hon i'w throsglwyddo i ddarparwyr dan contract drwy drosglwyddo data mewn modd diogel drwy'r porth
- darparu crynodeb o'r Adroddiad Atgyfeirio Asesiad (ARR) i bob cleient NEET sy'n cael ei gyfeirio at ddarpariaeth Cymorth Gwaith Cymru. Bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi cryfderau a chynlluniau gyrfa'r cleient ynghyd ag amlinellu

unrhyw rwystrau o ran symud ymlaen. Bydd y wybodaeth hon yn helpu darparwyr i adeiladu Cynllun Gweithredu ar Gyflogaeth

- cyfeirio cwsmeriaid y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i oresgyn rhwystrau i addysg, gwaith a hyfforddiant at wasanaethau priodol (Haen 2). Byddwn yn parhau i fonitro nifer yr atgyfeiriadau at ddarparwyr Haen 2 a'r amrywiadau rhwng ardaloedd awdurdodau lleol
- parhau i hysbysebu prentisiaethau drwy ein hymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol
- cefnogi cleientiaid i bontio'n ddidrafferth at wasanaethau'r Adran Gwaith a Phensiynau yn 18 oed, gan nodi'r holl gleientiaid di-waith yn Haen 3 dri mis cyn eu pen-blwydd yn 18 oed a darparu hyperddolen iddynt at fideo a gynhyrchwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n esbonio'r gefnogaeth y gallant ei disgwyl gan staff y Ganolfan Gwaith pan fyddant yn 18 oed
- gweithio â darparwyr Cymorth Gwaith Cymru i sicrhau bod gennym gysylltiadau lleol rhagorol ac arferion cadarnhaol ar y cyd sy'n cefnogi anghenion cleientiaid. Byddwn yn annog hyn drwy:
 - Glustnodi 'cynghorydd cyswllt' ar gyfer pob darparwr **Lwfans Ceisio Gwaith (CHECK – JSA neu JSW - Cymorth Gwaith Cymru?)**
 - Cytuno ar gynlluniau 'cyswllt neu gefnogaeth' i gleientiaid Haen 4 a gyfeiriwyd atom gan ddarparwyr Cymorth Gwaith Cymru
 - Sicrhau arferion gwaith cadarn ar y cyd yn seiliedig ar atgyfeirio cleientiaid yn ddiogel, mynediad at gleientiaid mewn canolfannau gyrfaedd a lleoliadau allgymorth arall a darparu gwybodaeth berthnasol a helaeth am y cleient
- gweithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a Llywodraeth Cymru i gefnogi pobl ifanc yng Nghymru sy'n cael eu rhoi mewn ystadau diogel yng Nghymru a Lloegr. Byddwn yn cefnogi pobl ifanc mewn ystadau diogel drwy:
 - Gysylltu â'r person ifanc neu eu gweithiwr Gwasanaethau Troseddau Ieuencid o fewn deg diwrnod gwaith ar ôl cael gwybod eu bod wedi'u rhyddhau a sicrhau bod y lefelau priodol o gefnogaeth yn cael eu cynnal
 - Gwahodd pob person ifanc sy'n dychwelyd i Gymru o ystadau diogel yn Lloegr i fynychu apwyntiad i gael cefnogaeth mewn lleoliad priodol o fewn deg diwrnod i'r cyswllt uchod.

Sut y byddwn yn Cefnogi Pobl Ifanc yn Haenau 1 a 2?

Rydym yn ymwybodol bod cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru yn bwriadu ailgyhoeddi canllawiau'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid i awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn fusnes sydd i ddod ac felly rydym yn disgwyl y bydd rhai newidiadau yn ystod y flwyddyn i'r data Model 5 Haen ac i'r rôl y mae Gyrfa Cymru yn ei chwarae o fewn y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid. Tan hynny, byddwn yn parhau â'r arfer cyfredol mewn perthynas â'r gefnogaeth a ddarperir o ran Haenau 1 a 2.

Yn ystod 2019-20, byddwn yn parhau i ddarparu mynediad i awdurdodau lleol i'n data ar gleientiaid Haenau 1 a 2 drwy'r hybiau data. Bydd hyn yn caniatáu i **Gydlynwyr**

Dilyniant Ymgysylltu redeg yr adroddiadau gymaint o weithiau ag sydd eu hangen arnynt ac yn caniatáu iddynt gael gafael ar wybodaeth gyfoes mewn amser real.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithredu system 'hysbysu atgyfeiriadau' ar gyfer y rhai sy'n cael eu cofnodi yn Haen 2 sy'n caniatáu i Gydlynwyr Dilyniant Ymgysylltu a staff dynodedig weld symudiadau 'byw' i mewn i Haen 2. Dylai hyn eu helpu i reoli dyrannu cefnogaeth i'r grŵp cleientiaid hwn yn fwy effeithiol.

Mae'n anochel y bydd cyflwyno Cymorth Gwaith Cymru yn cael effaith ar batrymau atgyfeirio ar gyfer cleientiaid Haen 2 gan ei fod yn cynnig darpariaeth sylweddol newydd a mwy hyblyg i bobl ifanc ddi-waith (gan gynnwys y rhai yn Haen 2). Rydym wedi ymrwmo i weithio'n agos â **Chydlynwyr Dilyniant Ymgysylltu** yn y flwyddyn i ddod i sicrhau bod hyn yn cael ei gyflwyno'n effeithlon ac mewn modd sy'n cefnogi'r grŵp cleientiaid.

Fel erioed, rydym yn gweithredu polisi drws agored i gleientiaid Haenau 1 a 2 a byddwn yn parhau i gynnig cefnogaeth fel y'i rheolir gan y **Cydlynnydd Dilyniant Ymgysylltu** naill ai drwy alw heibio neu atgyfeirio drwy asiantaethau allweddol.

Gwaith gyda Phobl Ifanc yn yr Ystadau Diogel

Ar hyn o bryd mae ein contract craidd â Llywodraeth Cymru yn ein hariannu i gynnig cefnogaeth i bobl ifanc sydd wedi'u lleoli mewn dau leoliad ystâd ddiogel yng Nghymru:

- Canolfan Ddiogel Hillside, Castell-nedd
- Sefydliad Troseddwyr Ifanc Carchar EM y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr

Yn ystod y flwyddyn byddwn yn parhau i weithio â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Llywodraeth Cymru i gefnogi pobl ifanc yng Nghymru sy'n cael eu rhoi mewn ystadau diogel yng Nghymru a Lloegr. Byddwn yn cefnogi pobl ifanc yn yr ystadau diogel drwy:

- gysylltu â'r person ifanc neu eu gweithiwr Gwasanaethau Troseddu Ieuenctid o fewn deg diwrnod gwaith ar ôl cael gwybod eu bod wedi'u rhyddhau a sicrhau bod y lefelau priodol o gefnogaeth yn cael eu cynnal
- gwahodd pob person ifanc sy'n dychwelyd i Gymru o ystadau diogel yn Lloegr i fynychu apwyntiad i gael cefnogaeth mewn lleoliad priodol o fewn deg diwrnod i'r cyswllt uchod.

Rydym hefyd yn bwriadu newid ein dull o gefnogi pobl ifanc yn yr ystadau diogel yn ystod y flwyddyn i ddod yn unol â datblygiadau Cymru'n Gweithio a'r hyblygrwydd cynyddol y mae hyn yn ei gynnig o ran dyrannu adnoddau. Rydym yn gobeithio ffurfioli trefniadau drwy gytuno ar Gytundebau Partneriaeth â phob sefydliad a defnyddio hwn fel cyfle i roi'r newyddion diweddaraf i'r rhanddeiliaid allweddol hyn ar ddatblygiadau yng Ngwasanaeth Cyngori Cymru'n Gweithio a Chymorth Gwaith Cymru. Rydym hefyd yn bwriadu ail-lansio'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn a gwella dyraniad adnoddau, er bod hyn yn dibynnu ar drafodaethau'r Cytundebau Partneriaeth. Rydym wedi darganfod o'r blaen bod y niferoedd yn y sefydliadau yn tueddu i fod yn gymharol

fach ac mae cleientiaid yn aml yn preswyllo yn y sefydliad am gyfnodau byr, felly mae angen i ni ailedrych ar y ffordd orau i'w cefnogi.

Fel y gwnawn yn awr, byddwn yn cynnig cyfuniad o gefnogaeth gan gynnwys sesiynau grŵp, cyfweiliadau, cyfeirio ac atgyfeirio at gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant priodol. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r tîm addysg ym mhob sefydliad i sicrhau trosglwyddiad cynnes i'r Cynghorydd Gyrfa priodol neu at Addysg, Gwaith neu Hyfforddiant priodol ar ôl rhyddhau.

Ymateb i Adroddiad Hanson, 'Diwygio Canlyniadau'

Mae Gyrfa Cymru yn croesawu Adroddiad Hanson ac yn awyddus i gydweithio â Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i roi'r argymhellion perthnasol ar waith. Mae cyflwyno gwasanaeth Cynghori newydd Cymru'n Gweithio yn caniatáu i ni fod yn fwy hyblyg o ran y ffordd rydym yn dyrannu adnoddau i garchardai ac rydym eisoes wedi gwneud trefniadau i gynyddu'r gefnogaeth i 2 o'r carchardai mwy yn ystod y flwyddyn i ddod.

Fel rhan o 'Strategaeth Lleihau Aildroseddu yng Nghymru' rydym yn gweithio â'r Adran Gwaith a Phensiynau, prosiect Boss, Dysgu a Sgiliau a Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru fel rhan o grŵp Gorchwyl a Gorffen yng Ngharchar EM Caerdydd i fapio'r ddarpariaeth 'Trwy'r Gât' sydd ar gael i garcharorion. Bydd hyn yn helpu i benderfynu a yw'r ddarpariaeth yn addas at y diben ac yn gynhwysol i garcharorion â nodweddion gwahanol ac yn y pen draw a yw'n cyflawni'r canlyniadau disgwylidig. Rydym hefyd yn gweithio â rhanddeiliaid yng Ngharchar EM Caerdydd sy'n cyflwyno'r rhaglen 'Barod am Waith' i garcharorion fel rhan o'r rhaglen ailsefydlu; bydd hyn yn cael ei werthuso a'i adolygu cyn ei gyflwyno i garchardai arall.

Mewn ymateb i adroddiad Hanson byddwn yn:

- Gweithio â Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i addasu ein harferion gwaith yn y carchar fel eu bod yn adlewyrchu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn fwy.
- Cychwyn hyfforddiant ychwanegol ar gyfer yr holl Gynghorwyr Gyrfa (nid dim ond y rhai sy'n gweithio mewn carchardai) fel eu bod yn fwy ymwybodol o'r cyfyngiadau, yr heriau a'r rhwystrau sy'n wynebu carcharorion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau yn ogystal â'r gymuned ehangach o gyn-droseddwr.
- Cefnogi'r gwasanaethau carchardai â mynediad at Wybodaeth am y Farchnad Lafur leol, ranbarthol a chenedlaethol. Gellir gwneud hyn naill ai trwy ein gwefan (lle gellir ei chyrru mewn carchardai) neu drwy ddysgu mewn grŵp neu gyfweiliad gyrfa unigol os yw hyn yn fwy priodol.
- Gweithio gyda gwasanaethau carchardai i hwyluso mynediad at gyflogwyr. Rydym eisoes wedi treialu trefniant 'ffeiriau swyddi' llwyddiannus iawn mewn rhai carchardai yng Nghymru. Byddwn yn cynyddu'r cynnig hwn yn ystod y flwyddyn i ddod fel bod gan garcharorion fynediad at gyflogwyr sydd â swyddi

gwag. Y gobaith yw y bydd hyn yn cefnogi eu ceisiadau wrth adael ond y bydd hefyd yn cynyddu hyder wrth ddelio â chyflogwyr ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau.

- Byddwn yn gweithio â Busnes Cymru fel y gallwn gyda'n gilydd adnabod carcharorion a allai fod eisiau datblygu eu busnesau eu hunain ar ôl rhyddhau ac yna i ddarparu pecynnau cymorth priodol ar eu cyfer.

Mae Adroddiad Hanson hefyd yn argymhell y dylai Gyrfa Cymru weithio â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i sicrhau bod eu gwasanaethau wedi'u hintegreiddio'n llawn yn y carchardai a hefyd yn y broses ailsefydlu, a bod rhaid iddynt chwarae rhan weithredol yn natblygiad y gwasanaethau prawf newydd o 2020. Mewn ymateb i hyn rydym eisoes wedi trefnu cyfarfodydd ym mis Mai i gychwyn trafodaethau ynghylch Gyrfa Cymru a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn gweithio'n agosach mewn partneriaeth.

Gweithio gyda thimau Troseddu leuenctid/Cyfiawnder leuenctid

Yn ystod 2019-20 hoffem ffurfioli ein gwaith ymhellach gyda thimau Troseddu leuenctid. Ar hyn o bryd mae gennym gysylltiadau cadarnhaol iawn â Gwasanaethau Troseddu leuenctid ledled Cymru ond mae gennym ddulliau gweithredu gwahanol iawn. Er enghraifft, gyda rhai awdurdodau lleol (megis Caerdydd a rhai yng Ngogledd Cymru) mae gennym gytundebau ffurfiol lle mae ein cynghorwyr gyrfa yn cael eu secondio i dimau Gwasanaethau Troseddu leuenctid. Mewn ardaloedd eraill mae gennym drefniadau atgyfeirio y cytunwyd arnynt ac ati. Eleni hoffem fapio hyn a ffurfioli trefniadau mewn unrhyw ardaloedd lle mae gennym o bosibl fylchau neu drefniadau sydd wedi diffygio. Byddwn yn dyrannu cyfrifoldeb am ddatblygu Memorandwm Cydddealltwriaeth newydd a Chytundebau Partneriaeth lleol diwygiedig i un Rheolwr Cyflenwi Gweithredol a byddwn yn sicrhau bod sesiynau briffio ar ddatblygiadau Cymru'n Gweithio a Chymorth Gwaith Cymru yn digwydd cyn gynted â phosibl yn y flwyddyn fusnes newydd.

2.9: Cefnogi'r Daith Cynllunio Gyrfa Ôl-18

Beth rydym yn bwriadu ei ddarparu i oedolion?

Disgrifir y gwaith y mae Gyrfa Cymru yn ei wneud i gefnogi oedolion 18+ yn y dogfennau canlynol:

- i. ***Manyleb Gwasanaeth y Porth Cyngor Cyflogaeth (a elwir bellach yn Cymru'n Gweithio)***
- ii. ***Atodiad B - Gofynion Adrodd a Dangosyddion Perfformiad Lefel Gwasanaeth Cyngor Gwaith Cymru (a elwir bellach yn Cymru'n Gweithio)***
- iii. ***Rhaglen Manyleb Tendr ddiwygiedig ar gyfer y rhaglen gyflogadwyedd newydd (fersiwn newydd ddim ar gael eto)***

Bydd ein holl waith ag oedolion bellach yn digwydd o dan Wasanaeth Cyngori Cymru'n Gweithio yn unol â'r DPA a'r Rhagdybiaethau Cyflwyno a nodir yn y dogfennau uchod. Bydd hyn yn sicrhau bod y gwasanaeth newydd yn darparu system symlach ac effeithlon o gymorth cyflogadwyedd sy'n ymatebol i anghenion yr unigolyn. I grynhoi, bydd hyn yn cynnwys*:

- Mwy o amlygrwydd ledled Cymru wrth i ni ehangu'r trefniadau cydleoli a'n portffolio allgymorth yn ogystal â'n canolfannau Gyrfaedd parhaol
- Cefnogaeth ar-lein ac ar y ffôn
- Cefnogaeth wyneb yn wyneb ac mewn grŵp
- Darparu llwyfan ar-lein sy'n galluogi cleientiaid i helpu eu hunain (Darganfyddwr Cymorth)
- Asesiad o angen drwy gategoreiddio'r gefnogaeth sydd ei hangen
- Adroddiadau Asesu a Chyfeirio Manwl ar gyfer cleientiaid a gyfeiriwyd at Gymorth Gwaith Cymru
- Cyfeirio ac atgyfeirio at Brentisiaethau
- Cyfeirio ac atgyfeirio at ddarpariaeth 'Haen 2' arall (e.e. cefnogaeth a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop) fel sy'n briodol
- Cefnogaeth 'Ymateb Cyflym' barhaus i gyflogwyr a staff sydd mewn perygl o gael eu diswyddo yn adeilad y cyflogwr.

* *Gellir gweld manylion ychwanegol yn nogfennau i, ii, iii uchod.*

Yn ogystal â'r uchod, bydd oedolion sy'n derbyn cefnogaeth gan Wasanaeth Cyngori Cymru'n Gweithio hefyd yn gallu defnyddio ystod eang o wasanaethau a gefnogir yn ddigidol neu ar y we. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Gwefan Gyrfa Cymru gwell, sy'n cynnwys ystod eang o Wybodaeth am y Farchnad Lafur, gwybodaeth am swyddi a chyflogadwyedd ac offer ar-lein.
- Microwefan Cymru'n Gweithio. Bydd hwn yn safle ymgyrchu i gefnogi marchnata a chyfathrebu'r prosiect, yn cynnwys gwybodaeth am Cymru'n Gweithio a sut i gael mynediad at wasanaethau. Bydd yn ymatebol ac yn cydymffurfio â safonau GEL 2 Llywodraeth Cymru, gan fabwysiadu canllaw arddull digidol cyfredol Gyrfa Cymru. Bydd Gyrfa Cymru yn gyfrifol am gynnal a rheoli'r safle, gan weithio'n agos â thîm marchnata Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru'n Gweithio.
- Darganfyddwr Cymorth. Bydd yr offeryn chwilio ar-lein hwn yn caniatáu i gleientiaid ddod o hyd i gymorth cyflogadwyedd sy'n cyfateb i'w lleoliad, eu hanghenion a'u cymhwysedd.
- Map Mynediad Cymru'n Gweithio. Mae'r map rhyngweithiol hwn yn nodi'r holl leoliadau hynny ledled Cymru lle gellir cael mynediad at gefnogaeth Cymru'n Gweithio (dros 100 o leoliadau ac yn tyfu). Yna gall cleientiaid gysylltu â Chymru'n Gweithio mewn lleoliad sy'n addas iddyn nhw neu ddefnyddio ein gwasanaethau ffôn/ar y we.
- Cyswllt Gyrfa Cymru. Cefnogodd ein gwasanaeth llinell gymorth dros 40,000 o alwadau a thua 9,000 o sgysiau ar-lein y llynedd. Mae'r data'n dangos bod y mwyafrif o'r rhain yn oedolion. Byddwn yn parhau i gynnig y gefnogaeth hon eleni ac rydym hefyd yn ymchwilio i ffyrdd o gefnogi ymatebion y tu allan i oriau ymhellach trwy chatbot.

- Cyfweiliadau fideo. Rydym eisoes wedi treialu cyfweiliadau fideo mewn sawl lleoliad ledled Cymru. Hyd yn hyn, mae wedi cynnwys cysylltu cleientiaid sydd wedi'u lleoli mewn un lleoliad Canolfan Gyrfaedd â chynghorydd mewn canolfan arall. Eleni byddwn yn ymchwilio i sut y gellir gwella hyn i alluogi cyfweiliadau digidol o gartrefi cleientiaid neu leoliadau dewisol arall.

CEFNOGAETH AR GYFER RHAGLENNI BLAENOROL: React, Twf Swyddi Cymru a Rhaglenni Mynediad

Gan fod dyddiad cychwyn y rhaglenni cyflogadwyedd newydd a'r ymarfer caffael newydd wedi'i ohirio, bydd Gyrfa Cymru yn parhau i gefnogi rhaglenni sy'n bodoli'n barod (ReAct, Twf Swyddi Cymru a Mynediad) tan y dyddiadau cau y cytunwyd arnynt. Mae hyn yn golygu y bydd gorgyffwrdd tra byddwn yn cyflwyno arferion newydd, yn cefnogi darpariaeth sy'n bodoli'n barod ac yn cefnogi rhaglenni darpariaeth dan gontract newydd.

Treialu defnydd o ddata Model 5 Haen ag oedolion

Yn ystod y flwyddyn i ddod, byddwn yn treialu'r defnydd o strwythur y Model 5 Haen a'r gyfres o adroddiadau ag oedolion. Mae trafodaethau cychwynnol ar y gweill mewn perthynas â threialu hyn â'r garfan 18-25 yng Ngogledd Cymru ers 2018 ond rydym yn bwriadu symud hyn ymlaen a chytuno ar fodel gweithredu y gellir ei ddefnyddio ledled Cymru yn ystod y flwyddyn fusnes.

Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) - Gweithio ag Oedolion yn yr Ystadau Diogel:

Mae gwaith ag oedolion yn yr ystâd ddiogel (a oedd yn flaenorol dan gontract NOMS) bellach wedi'i ymgorffori yn narpariaeth gwasanaeth Cymru'n Gweithio. Yn ystod 2019-20 byddwn yn parhau i weithio'n agos â thîm NOMS a swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau ein bod yn cwrdd â mesurau canlyniadau y cytunwyd arnynt a Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer ein gwaith â charcharorion. Gellir dod o hyd i fanylion yn y dogfennau trwy'r dogfennau canlynol:

- i. *Manyleb Gwasanaeth y Porth Cyngor Cyflogaeth (a elwir bellach yn Cymru'n Gweithio)*
- ii. *Atodiad B - Gofynion Adrodd a Dangosyddion Perfformiad Lefel Gwasanaeth Cyngor Gwaith Cymru (a elwir bellach yn Cymru'n Gweithio)*

Yn ystod y flwyddyn i ddod, byddwn yn parhau i ddyrannu adnoddau Cynghorydd Gyrfa i'r holl garchardai yng Nghymru ac yn bwriadu cynyddu'r dyraniad adnoddau i Garchar Prescoed. Mae Prescoed yn garchar ailsefydlu lle mae carcharorion yn cael eu hailsefydlu yn barod i'w rhyddhau. Rydym wedi canfod bod ein cefnogaeth yn ystod y rhaglen ailsefydlu ddwys yn ddefnyddiol ac yn welliant cadarnhaol i'r gefnogaeth a ddarperir eisoes.

Eleni byddwn yn parhau i weithio â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i ymchwilio i ymarferoldeb cynnig cefnogaeth i garcharorion benywaidd o Gymru sydd mewn carchardai y tu allan i Gymru. Bydd cynnydd yn dibynnu ar ganlyniadau'r trafodaethau ac ar argaeledd cyllid ond mae hwn yn faes y dylid ei archwilio fel bod modd i ni gynnig gwasanaeth pontio i garcharorion benywaidd sy'n dychwelyd i Gymru.

2.10: Sianelau Dosbarthu

Ein nod yw darparu gwasanaeth aml-sianel i'n cleientiaid, gan ddarparu ein gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd drwy'r sianel mae ein cleientiaid yn ddewis ar draws pob grŵp oedran i ddiwallu eu hanghenion. Mae rhyngweithiadau wyneb yn wyneb un-i-un a grŵp yn parhau i fod yn rhan annatod o'n gwasanaeth, ond rydym yn parhau i adeiladu ar y gwaith rydym eisoes wedi'i gyflawni o ran darparu cyfran o'n gwasanaethau trwy sianelau digidol.

Yn 2018-19 sefydlwyd ein Tîm Darganfod Digidol. Yn dilyn adolygiad bydd y tîm yn parhau yn 2019-20 ac yn cynnwys tair swydd newydd:

- Dadansoddwr Busnes
- Uwch Ymchwilydd Defnyddwyr
- Ymchwilydd Defnyddwyr

Bydd rôl y Tîm Digidol yn cynnwys:

- Arwain ar ymchwil Defnyddwyr ar draws pob sianel
- Datblygu prosesau newydd, mwy effeithiol ac effeithlon
- Gweithio â'r dadansoddwr data i ddiffinio segmentau allweddol
- Creu a phrofi Taith Cwsmer ar draws pob sianel, ar gyfer pob segment
- Nodi, meithrin, profi a gweithredu mentrau digidol/sianel newydd i wneud y gorau o daith pob cleient.

Cyswllt Gyrfa Cymru

Yn ystod 2019/20 bydd Gyrfa Cymru yn parhau i ddarparu mynediad i unigolion at wybodaeth a chyngor a chymorth cysylltiedig trwy ddarparu gwasanaeth ffôn/llinell gymorth a darpariaeth sgwrsio ar-lein ddwyieithog a thrwy gyfryngau cymdeithasol, trwy Facebook, ac e-bost.

Mae gan y gwasanaeth staff sy'n gyfwerth ag 16 aelod o staff cyflogedig llawn amser, yn gweithredu rhwng 9am a 5pm. Yn ystod y flwyddyn byddwn yn ymchwilio i ffyrdd o gefnogi ymatebion y tu allan i oriau trwy chatbot. Bydd Cyswllt Gyrfa Cymru wedi'i leoli mewn dau hyb rhanbarthol; un yng Ngogledd Cymru (Llandudno) a'r llall yng Nghaerdydd. Trwy gyfuniad o recriwtio a newidiadau i adeiladau fel rhan o'r strategaeth fynediad, byddwn yn parhau i feithrin y model dau hyb yn ystod 2019/20.

Mae Cyswllt Gyrfa Cymru ar gael i bob unigolyn sy'n cysylltu dros y ffôn, sgwrs ar-lein, e-bost a chyfryngau cymdeithasol a byddwn yn parhau i gynnig y gefnogaeth hon yn

ystod 2019/20. Yn ogystal â darparu gwybodaeth a chyngor byw yn ystod oriau agor, mae gan Cyswllt Gyrfu Cymru systemau ar waith i ateb ymholiadau pan nad ydym ar-lein ac i ymateb i gleientiaid yn unol â hynny. Byddwn hefyd yn darparu gwasanaethau i gefnogi gwasanaethau Cymru'n Gweithio, gan gynnwys cyflwyno cyfleuster "cais am alwad yn ôl".

Yn ystod 2019/20 byddwn yn:

- i. cynnal ymgyrch i ymchwilio i ffyrdd o gefnogi pobl ifanc mewn addysg a'u rhieni yn effeithiol
- ii. datblygu model llwyth achosion Cyswllt Gyrfu Cymru i fodloni gofynion Cymru'n Gweithio a cheisio cynyddu'r defnydd o "offer a gwasanaethau" i gefnogi cleientiaid
- iii. ymchwilio i'r defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial/Awtomatiaeth (IVR)/ Chatbots, yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r galw am y gwasanaeth, er mwyn caniatáu i gleientiaid hunan-wasanaethu ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos ac er mwyn i adnoddau gael eu cyfeirio at gleientiaid sydd angen gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfu pwrpasol
- iv. archwilio oriau gweithredu'r gwasanaeth i gynnwys oriau agor gyda'r nos

Gwefan Gyrfu Cymru

Wrth i ni symud i flwyddyn 3 o *Newid Bywydau* rydym yn parhau i symud ymlaen â'n cynlluniau trawsnewid digidol ac mae'r wefan yn rhan allweddol ohonynt. Gyda chyflenwr newydd ar waith gallwn ddisgwyl y bydd mwy o gynnydd gydol y flwyddyn, gan adeiladu ar y safle Beta a lanswyd ym mis Awst 2018.

Mae pob un o'r 4 prif faes cynnwys statig wedi'u poblogi ar y safle Beta i gefnogi anghenion gwybodaeth ymadawyr ysgol.

Mae'r wefan yn cael ei datblygu yn unol â safonau GEL 2 Llywodraeth Cymru ac mae'n ymatebol i 'ffôn symudol yn gyntaf'. Eleni byddwn yn cwblhau'r gwaith o fudo holl feysydd cynnwys statig y wefan gan gynnwys:

- Cael Swydd
- Cynllunio Eich Gyrfu
- Cyrsiau a Hyfforddiant
- Prentisiaethau
- Cyflogwyr
- Pobl Broffesiynol
- Newyddion a Digwyddiadau
- Cysylltu â Ni

Yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn fusnes byddwn yn symud cynnwys i'r safle newydd yn barhaus a dyma fydd safle Gyrfu Cymru erbyn diwedd mis Awst.

Cwisiau Gyrfu a Seicometreg

Mae cwisiau a phroffion seicometrig yn rhan allweddol o'r gefnogaeth rydym ni'n ei darparu i unigolion fel rhan o gam diagnosis y Model Darganfod Gyrfu. Eleni byddwn yn cyflwyno fersiwn syml o gwis gyrfaoedd yn seiliedig ar bersonoliaeth o'r enw *Cwis Buzz*. Gellir rhoi cynnig ar y cwis heb yr angen i fewngofnodi, a bydd yn paru unigolyn

â math o bersonoliaeth (yn seiliedig ar fathau personoliaeth Myers Briggs) ac yn darparu ystod o wybodaeth, swyddi a sectorau sy'n gysylltiedig â'r canlyniad.

Rydym yn parhau i drwyddedu â CASCAiD ar gyfer fersiwn mwy manwl o'r Cwis Paru Swyddi, gan ddarparu fersiwn i oedolion a phobl ifanc ar y wefan. Byddwn yn diweddarau Gwybodaeth am y Farchnad Lafur a gwybodaeth gyrfaedd ddwywaith y flwyddyn i adlewyrchu newidiadau cydnabyddedig yn y farchnad lafur ac i fanylion swyddi.

Fel rhan o'n perthynas hirsefydlog â CASCAiD byddwn yn buddsoddi amser i ymchwilio a datblygu gwasanaeth y dyfodol sy'n helpu i baratoi pobl ifanc ar gyfer byd gwaith y dyfodol, ac yn adeiladu ar y ddarpariaeth gyfredol o offer ar-lein. Bydd y gwaith ymchwil a datblygu yn canolbwyntio ar daith gyrfa pobl ifanc i feithrin hunan-wybodaeth, archwilio opsiynau, cynllunio a dysgu ac ailasesu.

Gwybodaeth am y Farchnad Lafur

Mae gwybodaeth alwedigaethol yn rhan allweddol o ddata Gwybodaeth am y Farchnad Lafur ac yn cael ei ddefnyddio'n aml iawn ar y wefan. Eleni ein bwriad yw sicrhau bod gwybodaeth am swyddi ar gael ar ein gwefan Beta trwy ystod o ffynonellau sydd ar gael inni, gan gynnwys data ffynhonnell agored. Rydym newydd gwblhau ein hymchwil defnyddwyr cychwynnol i lywio datblygu'r math o wybodaeth y mae defnyddwyr yn ei werthfawrogi a'r ffordd y bydd y wybodaeth yn cael ei chyflwyno ar y wefan. Cam cyntaf y datblygiad fydd cynhyrchu cynnyrch hyfyw lleiaf (MVP) ac yna cylch parhaus o ymchwil ac adborth defnyddwyr i lywio gwelliannau, wedi'i ddatblygu trwy broses gynyddol ac ailadroddol. Bydd hyn yn disodli adrannau Chwiliad Gyrfa a Gwybodaeth am Swydd ar y safle presennol.

Mae Gwybodaeth am y Farchnad Lafur sectorol a rhanbarthol hefyd yn bwysig iawn ac eleni byddwn yn dechrau mudo cyfres Tueddiadau Swyddi i'r safle Beta. Gan ddefnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am y farchnad lafur a chysylltu â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, a chael ein llywio gan eu cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau, byddwn yn diweddarau cyfres Tueddiadau Swyddi yn unol â'r broses fudo. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu yn dilyn ymchwil ac adborth defnyddwyr, gan adeiladu cynnyrch hyfyw lleiaf (MVP) i'w ddefnyddio ar gyfer ymchwil a phrofi pellach i wella iteriadau o'r cynnyrch yn y dyfodol.

Datblygiadau newydd

Yn ystod y flwyddyn, bydd gwaith yn cychwyn ar gamau cyn darganfod cymwysiadau posibl. Nodwyd bod y cymwysiadau hyn yn gallu ychwanegu gwerth i gefnogi taith y cleient ar gyfer gwahanol segmentau defnyddwyr:

- Proffil, gan gynnwys cofrestru a mewngofnodi
- Swyddogaeth chwilio am swydd
- Cymhwysiad gwneud penderfyniadau
- Cymhwysiad arddulliau dysgu

- Cymhwysiad sgiliau
- Gwirio Gyrfa

Adran 3: Adeiladu ar Lwyddiant

3.1: Busnes Cymru

Yn ystod 2019-20 byddwn yn parhau i ddatblygu aliniad gwaith agosach â Busnes Cymru. Yn ystod y flwyddyn byddwn yn adeiladu ar ac yn bwrw ymlaen â thrafodaethau parhaus ynghylch protocolau atgyfeirio, cyfarfodydd ar y cyd, defnyddio adeiladau a chydlynu gwybodaeth a chefnogaeth Llinell Gymorth. Cytunwyd ar gyfres o gamau penodol.

- Ystyried cyfethol aelodau o bob bwrdd i ymuno â bwrdd cyfatebol Busnes Cymru/Gyrfa Cymru ag amcanion ar y cyd yn seiliedig ar raglenni gwaith unigol i'w cytuno ar gyfer y byrddau.
- Aliniad digidol ein priod lwyfannau i ddarparu profiad di-dor i gleientiaid busnes. Byddwn yn gweithio â Busnes Cymru i sicrhau mai drwy Busnes Cymru y bydd taith naturiol cyflogwyr waeth beth fo'r sefydliad neu'r sianel a ddefnyddiwyd i ymuno. Yn ôl y cytundeb cyfredol bydd safle newydd Gyrfa Cymru yn cael data Prentisiaethau gan Fusnes Cymru ac yn cyflwyno'r cyfleoedd fel rhan o'n cynnig annibynnol.
- Nodi a datblygu cyfleoedd i alinio swyddogaeth Llinell Gymorth Busnes Cymru/Gyrfa Cymru wrth symud ymlaen ar ôl 2020.
- Alinio gweithgaredd ymgysylltu â busnes, gyda Dosbarth Busnes ac Entrepreneuriaeth leuenctid yn fannau cychwyn.
- Cysylltu â chydweithwyr Busnes Cymru mewn perthynas â digwyddiadau effaith uchel, gan gynnwys presenoldeb posibl a/neu arweiniad posibl i gyflogwyr.
- Rhannu deunyddiau marchnata ar y cyd i hyrwyddo'r Gyfnewidfa Addysg Busnes yng ngweithdai cyflogwyr Busnes Cymru a bod cydweithwyr Gyrfa Cymru yn mynychu gweithdai perthnasol o bosibl i drafod y Gyfnewidfa Addysg Busnes.
- Hysbysebu digwyddiadau perthnasol ar y cyd trwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol priodol.
- Archwilio'r posibilrwydd o hyfforddiant ar y cyd, er enghraifft Gyrfa Cymru i roi cyflwyniad i gynghorwyr/mentoriaid Busnes Cymru trwy hybiau rhanbarthol ar y Gyfnewidfa Addysg Busnes, Cymru'n Gweithio, gyrfacymru.com ac ati.
- Rhannu gwybodaeth am y farchnad lafur, gan gynnwys rhestr o gysylltiadau rhwydwaith busnes awdurdodau lleol.
- Cydweithio i sicrhau bod rhanddeiliaid yn rheoli rhanddeiliaid cyffredin yn effeithiol.

Byddwn yn adrodd ar y cynnydd ar ddiwedd y flwyddyn mewn perthynas â chyflawni'r amcanion uchod.

Byddwn hefyd yn gweithio â Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yn unol ag argymhellion Adroddiad Hanson (Mawrth 2019) i sicrhau bod Gyrfa Cymru a Busnes Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i gynnig pecyn cefnogaeth i garcharorion sydd â diddordeb bod yn hunangyflogedig neu ddechrau eu busnes eu hunain.

3.2: Arolwg o Hynt Disgyblion

Hyd nes y ceir datrysiad i hysbysiadau preifatrwydd priodol a chytundeb rhannu data ynghylch data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC), bydd arolwg o hynt disgyblion ar gofrestr ysgolion ym mis Ionawr eu blwyddyn gadael ysgol statudol yn parhau yn ei fformat cyfredol ar gyfer y flwyddyn fusnes hon yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol.

3.3: Gwerthuso Manteision Economaidd Gyrfa Cymru

Yn ystod blwyddyn fusnes 2019-20, byddwn yn dod â'n partneriaeth a ariennir ar y cyd â Phrifysgol Caerdydd i wneud ymchwil i fanteision economaidd y gwasanaethau a ddarperir i gleientiaid a phartneriaid gan Gyrfa Cymru i ben. Rhaglen dwy flynedd yw hon a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar fanteision economaidd darparu cyfarwyddyd gyrfaoedd i gleientiaid ac mae'n cynnwys:

- Adolygiad desg o ymchwil blaenorol a wnaed yn y DU ac yn rhyngwladol sy'n canolbwyntio ar fanteision economaidd swyddogaethau gwasanaethau gyrfaoedd;
- Datblygu methodoleg ac offerynnau ategol i ddiffinio proses ddibynadwy, gadarn y gellir ei hailddefnyddio i fesur manteision economaidd gwaith gwasanaethau gyrfaoedd y gellir eu cymhwyso'n benodol i Gymru;
- Sicrhau y bydd dyluniad y fethodoleg yn cynnwys y gwasanaethau traddodiadol a digidol a ddarperir ac a dderbynnir gan gleientiaid;
- Cynnal profion maes a rhoi'r dulliau ymchwil a'r cyfarpar ar waith i gyflwyno set gychwynnol o ganfyddiadau;
- Gwneud ein data'n ddiennw a sicrhau ei fod ar gael i gyrff cyhoeddus at ddibenion ymchwil. Mae'n bosibl y bydd y datblygiad hwn yn golygu ein bod yn cael ceisiadau gan sefydliadau ac unigolion allanol i ddefnyddio data at ddibenion ymchwil.

3.4: Hunanwerthuso a Gwerthuso Gwasanaethau

Byddwn yn parhau i ddatblygu arddull hunanwerthuso mewn perthynas â phob gweithgaredd gan ddangos ein bod wedi cyflawni o ran ein canlyniadau lefel uchel ac yn darparu'r gwasanaeth o'r ansawdd uchaf posibl i gleientiaid. Bydd ein model hunanwerthuso yn seiliedig ar:

- Ddata canlyniad a pherfformiad;
- Adborth gan gleientiaid a rhanddeiliaid;
- Brosesau sicrwydd ansawdd cadarn;
- Hunanwerthuso agored, gonest a thryloyw;
- Gyloch cynllunio gwelliant parhaus sy'n ystyried yr holl gamau blaenorol.

Byddwn yn parhau i gynnal arolygon boddhad cleientiaid yn rheolaidd, gan dreialu'r dulliau gorau i gasglu adborth gan gleientiaid. Byddwn hefyd yn ymchwilio'r potensial

i gasglu adborth gan gleientiaid yn fwy rheolaidd trwy gwestiynau adborth byr a anfonir yn electronig. Yn ogystal, byddwn yn canolbwyntio ar rai meysydd gwerthuso allweddol:

Byddwn yn canolbwyntio ar Wasanaethau i Bobl Ifanc ac yn gwerthuso:

- Ein cynnig i fyfyrwyr mewn darpariaeth AB i nodi pa mor effeithiol yw ein dull o ran cefnogi cleientiaid.
- Ein gwaith â rhieni, gan ddefnyddio'r dystiolaeth i helpu llunio ein gwaith â rhieni wrth symud ymlaen, yn enwedig ymgysylltu digidol.
- Y rôl rydym ni'n ei chwarae yn natblygiad cadarnhaol myfyrwyr ag ADY.
- Gwaith peilot mewn ysgolion cynradd a chyda Addysg ddewisol yn y cartref.

O ran Cymru'n Gweithio, byddwn yn gweithio'n agos â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i werthuso'r gwasanaeth.

O fewn Gwasanaethau Rhanddeiliaid byddwn yn parhau i werthuso ystod eang o weithgareddau ymgysylltu â chyflogwyr a Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith i lywio ein weithgareddau hunanwerthuso. Yn ystod 2018-19 cynhaliwyd cyfres o werthusiadau ag ysgolion i lywio ein proses hunanwerthuso ac o ganlyniad rydym yn teimlo bod gennym adborth digonol gan ysgolion. O ran tystiolaeth ar gyfer DPA, eleni byddwn yn canolbwyntio llawer mwy ar adborth gan ddisgyblion.

Bydd ein datblygiadau digidol yn canolbwyntio mwy ar gyfranogiad defnyddwyr i lywio siâp y gwasanaeth yn y dyfodol. Byddwn yn ceisio darganfod sut yr hoffai ein cleientiaid dderbyn gwasanaeth gennym ni a defnyddio hynny i lywio ein datblygiadau digidol a'n gwasanaeth cyfunol.

3.5: TGCh

Byddwn yn parhau i weithio â chynllun Cyber Security Plus â safonau IASME tra'n gweithio tuag at ardystiad ISO27001/2. Bydd hyn yn cynnwys Gwiriad Iechyd TG chwarterol yn unol ag arfer gorau OWASP. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl ddata a gedwir ar gronfeydd data a systemau yn ddiogel ac yn gydnerth yn unol â rheoliadau diogelu data a'r achrediad uchod.

Gyda rhwydwaith Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA) yn rhoi'r gorau i'w gwasanaeth VoIP eleni, byddwn yn dod o hyd i system VoIP newydd ac yn ei rhoi ar waith i sicrhau bod gwasanaethau a gallu priodol ar gael i safon uchel i ddarparu gwasanaeth Cyswllt Gyrfa Cymru.

Byddwn yn gweithio â chydweithwyr i sicrhau bod ganddynt yr offer TGCh priodol i gyflawni eu rôl mewn modd ystyryth ac ymatebol.

Byddwn yn gweithio â chydweithwyr a rhanddeiliaid i ddehongli, dadansoddi ac adrodd ar y data sydd gennym. Byddwn yn gwneud hyn yn unol â rheoliadau diogelu data a byddwn yn sicrhau bod cytundebau rhannu data priodol ar waith.

3.6: Staff Cymwys gyda Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) Effeithiol

Mae ein Cynghorwyr Gyrfa ar Gofrestr Gweithwyr Proffesiynol Gyrfaoedd y Sefydliad Datblygu Gyrfa (CDI) y DU. Mae hyn yn dangos bod ein holl Gynghorwyr Gyrfa yn meddu ar gymwysterau proffesiynol mewn pwnc datblygu gyrfa hyd at o leiaf Lefel 6 y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau, yn cydymffurfio â Chod Moseg y CDI ac yn cyflawni isafswm o 25 awr o DPP bob blwyddyn.

Bydd llawer o'n hadnodd dysgu a datblygu eleni yn canolbwyntio ar hyfforddi ein cynghorwyr newydd dan hyfforddiant i gyflawni Lefel 6 y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau ac i fod yn gwbl gymwysiedig. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn ystod eang o weithgareddau DPP i gynnal y safon uchaf o arfer proffesiynol, gan ddefnyddio ein dull anghenion dysgu yn seiliedig ar rôl i gefnogi rheoli perfformiad, dysgu sy'n canolbwyntio ar rôl a mwy o effeithlonrwydd o ran dysgu a datblygu. Byddwn yn cysylltu ein gweithgareddau dysgu a datblygu â nifer o nodau strategol allweddol y sefydliad. Mae hyn yn cynnwys:

- Parhau i weithredu *Newid Bywydau - Gweledigaeth ar gyfer Gyrfa Cymru 2017-20* yn llwyddiannus.
- Parhau i ddarparu strategaeth ddigidol effeithiol fel rhan o wasanaeth cyfunol i gleientiaid.
- Gweithredu a chyflawni *Cymru'n Gweithio* yn llwyddiannus.

3.7: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Y Saith Nod

Rydym wedi alinio saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn erbyn y Canlyniadau Lefel Uchel yn *Newid Bywydau*. Credwn y bydd cyflawni ein Canlyniadau Lefel Uchel a'n Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn llwyddiannus yn sicrhau ein bod yn cyfrannu at gyflawni'r nodau Llesiant ac er y bydd ein Canlyniadau Lefel Uchel yn cyfrannu at fwy nag un o'r nodau, rydym wedi nodi'r nod sy'n cyd-fynd agosaf â phob Canlyniad Lefel Uchel.

Rydym yn cydnabod na fyddwn yn cyflawni'r nodau hyn ar ein pen ein hunain, ond rydym yn cydnabod y rhan rydym yn ei chwarae o ran cyflawni pob un ohonyn nhw.

Cymru lewyrchus - *Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.*

Rydym yn credu, trwy leihau achosion o gam-gyfateb sgiliau a gwella effeithlonrwydd marchnadoedd llafur trwy gynyddu dealltwriaeth o Wybodaeth am y Farchnad Lafur ymhlith y boblogaeth oed ysgol y gallwn gyfrannu at ffyniant Cymru. Bydd gwell dealltwriaeth o dueddiadau'r farchnad lafur a meysydd twf yn helpu i ddatblygu cenhedlaeth fedrus ac addysgedig y dyfodol sy'n cyfrannu'n effeithiol at economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth. Bydd pobl ifanc sydd â'r sgiliau, y rhinweddau a'r cymwysterau cywir yn cymryd rhan yn fwy effeithiol yn economi'r dyfodol, gan roi pob cyfle iddynt fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir trwy gael gafael ar waith addas.

Cymru gydnerth - *cenedi sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).*

Mae cydnerthedd yn un o'r cymwyseddau rheoli gyrfa craidd yr ydym yn ceisio helpu ein cleientiaid i ddatblygu. Mae pa mor dda y gall cleientiaid ymateb i atalfeydd a phroblemau a pha mor dda y maent yn defnyddio'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt yn hanfodol i sicrhau bod ganddynt y gallu i addasu i newid, p'un a yw hynny yn y farchnad lafur yn gyffredinol neu yn eu hamgylchiadau personol. Mae cefnogi cleientiaid i barhau i ymgysylltu yn ganlyniad allweddol i ni, gan sicrhau bod cleientiaid yn gwneud penderfyniadau ystyriol ynglŷn â'u camau nesaf, a'u bod yn cael eu cefnogi i gynnal eu lle pan maent mewn perygl o ymddieithrio ac yn cael eu cefnogi i bontio'n ddiraffferth pan nad yw pethau wedi mynd yn ôl y bwriad. Mae pob un o'r rhain yn gofyn am wahanol raddau o gydnerthedd ar ran y cleient i barhau i ymgysylltu.

Cymru iachach - *cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.*

Mae cymryd rhan mewn cyflogaeth fuddiol a gwerth chweil yn ffactor allweddol i gynnal lles corfforol a meddyliol. Mae ein holl wasanaethau wedi'u hanelu at sicrhau bod ein holl gleientiaid yn cyflawni eu potensial yn eu gyrfaedd ac yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus ac annibynnol am eu llwybr gyrfa. Mae'r gefnogaeth a ddarperir trwy raglen Cymru'n Gweithio yn arbennig â'r nod benodol o gefnogi ac ysgogi cleientiaid sy'n economaidd anweithgar yn ôl i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant a chyfrannu at ffyniant economaidd y wlad, gyda'r holl fanteision llesiant a ddaw yn ei sgil.

Cymru sy'n fwy cyfartal - *cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).*

Prif nod ein holl wasanaethau yw helpu ein cleientiaid, ar ba bynnag gam yn eu bywydau, i gyflawni eu potensial. Rydym yn sefydliad sy'n canolbwyntio'n bennaf, er nad yn gyfan gwbl, ar bobl ifanc gan ein bod yn ei weld fel gwaith ataliol yn yr ystyr ein bod yn ceisio helpu pobl ifanc i ddechrau ar y trywydd iawn o ran eu llwybr gyrfa yn hytrach na chanolbwyntio ar ymyrryd yn nes ymlaen pan mae pethau wedi mynd o chwith. Felly, rydym yn gweithio'n agos â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys ysgolion, i sicrhau bod pobl ifanc yn ymwybodol o'u holl opsiynau wrth iddynt symud tuag at ddiwedd eu haddysg statudol. Rydym yn nodi anghenion cymorth pobl

ifanc ac yn hyrwyddo cydraddoldeb o ran parch rhwng llwybrau academaidd a galwedigaethol, gan gydnabod bod gan bob un ohonom gryfderau, diddordebau a chynlluniau gwahanol ar gyfer y dyfodol ac rydym yn cefnogi mynediad at yr holl lwybrau posibl. Cyflawnir hyn trwy ein gwaith â disgyblion oed ysgol yn uniongyrchol ond hefyd trwy'r gefnogaeth a ddarperir i ysgolion a cholegau i ddarparu cyfleoedd a phrofiadau dysgu i bobl ifanc sy'n helpu i'w paratoi ar gyfer byd gwaith.

Cymru o gymunedau cydlynus - *Cymunedau atyniadol, hyfiw a diogel sydd â chysylltiadau da.*

Rydym yn cydnabod mai elfen allweddol o ran cyflawni cymunedau cydlynus yw bod pawb yn teimlo bod ganddyn nhw ran yn eu cymuned a chyfrifoldeb iddi. Mae'r problemau sy'n gysylltiedig â phobl ifanc yn ymddieithrio o addysg neu hyfforddiant, ac yn y pen draw o'r farchnad lafur (bod yn NEET - Ddim mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant) wedi'u dogfennu'n dda, ond gallant arwain at y potensial i gymryd rhan yn y math o ymddygiad sy'n llesteirio cymunedau atyniadol, hyfiw a diogel â chysylltiadau da. Un o'n canlyniadau allweddol yw sicrhau bod cyn lleied o bobl ifanc â phosibl yn dod yn NEET, bod cymaint â phosibl yn cael eu cefnogi i gynnal eu lle mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant lle gallent fod mewn perygl o adael a bod cymaint â phosibl yn cael eu cefnogi yn ôl i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant lle gallant fod mewn perygl o ymddieithrio.

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu - *cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden*

Fel gwasanaeth gyfaoedd cenedlaethol Cymru rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth dwyieithog gwirioneddol. Rydym yn sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael eu darparu yn newis iaith y cleient a bod ein holl adnoddau, gwefan a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn gwbl ddwyieithog. Elfen allweddol o'r Wybodaeth am y Farchnad Lafur a ddarparwn i'n cleientiaid yw gwerth sgiliau iaith Gymraeg ym marchnad lafur gyfredol y dyfodol ac rydym wedi ymrwymo'n llwyr i strategaeth Llywodraeth Cymru i gyflawni miliwn o siaradwyr Gymraeg erbyn 2050. Carreg filltir allweddol inni eleni o ran cefnogi hynny fydd sicrhau bod adnoddau Cymraeg ychwanegol ar gael i ysgolion ledled Cymru i gefnogi'r cwricwlwm gyfaoedd a'r byd gwaith.

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang - *cenedi sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang*

Rydym yn gweithio'n agos ag ystod eang o gyflogwyr, o fentrau bach a chanolig i gwmnïau cenedlaethol a rhyngwladol. Rydym yn gwneud hyn i helpu paratoi pobl ifanc ar gyfer byd gwaith. Wrth wneud hynny mae pobl ifanc yn adeiladu darlun o'r economi, yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Gall cyflogwyr, trwy eu cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, helpu person ifanc i feithrin eu dealltwriaeth o sut y gall cwmnïau wneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang a gwneud dewisiadau gwybodus am y rôl y gallant ei chwarae fel unigolion a'r dewisiadau gyrfa a wnânt.

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Rydym wedi ymrwymo i weithredu'r 5 ffordd o weithio sy'n sail i'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Bydd cadw at y dulliau gweithio hyn yn ein helpu i gydweithio'n well â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid, osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol a mynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor rydym yn eu hwynebu.

Yr Hirdymor

Mae anghenion ein cleientiaid bob amser yn gyfuniad o anghenion tymor byr, canolig a hirdymor. Rydym yn gweithio ar yr egwyddor ein bod yn cefnogi gallu ein cleientiaid i gynllunio eu gyrfa yn yr hirdymor, a'u bod yn hyderus yn eu gallu i gynllunio eu gyrfa yn annibynnol. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, bod anghenion cleientiaid yn aml yn canolbwyntio ar y tymor byr, yn enwedig mewn perthynas â'r cleientiaid hynny sy'n NEET, neu'n segur yn economaidd, ac sy'n ceisio ailymuno ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ar frys. Rydym bob amser yn ceisio cydbwysu anghenion tymor byr ein cleientiaid â'r angen i ddatblygu eu gallu i reoli eu gyrfa yn y tymor hwy.

Atal

Mae ein gwasanaeth yn seiliedig ar gefnogi cleientiaid i wneud penderfyniadau gwybodus sydd wedi'u hystyried yn dda ynghylch eu camau nesaf, gan bontio o un lleoliad i'r llall yn llyfn ac effeithiol. Mae pontio'n llwyddiannus i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn golygu bod cleientiaid yn cael eu hatal rhag bod yn NEET neu'n ddi-waith neu fod mewn mwy o berygl o adael ac ymddieithrio. Mae yna bob amser gost uwch i ddatrys y canlyniadau negyddol hyn ('gwella') o gymharu â cheisio 'atal' y canlyniadau hyn yn y lle cyntaf. Mae'r gwaith a wnawn â phartneriaid a rhanddeiliaid bob amser yn deillio o'r egwyddor o baratoi cleientiaid i wneud penderfyniadau effeithiol ac atal canlyniadau negyddol mwy costus.

Integreiddio

Rydym yn gweithio ag ystod eang o bartneriaid a rhanddeiliaid o ystod o leoliadau, gan gynnwys sefydliadau addysgol, cyflogwyr, awdurdodau lleol, darparwyr hyfforddiant, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Llywodraeth Cymru, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, gwasanaethau cymdeithasol. Mae ein gwasanaeth yn elfen allweddol mewn ystod eang o raglenni a mentrau polisi, o ran gwasanaethau uniongyrchol i gleientiaid a rhanddeiliaid ac fel hyb data i gefnogi gwaith partneriaid i gefnogi eu hamcanion. Rydym wedi'n hintegreiddio'n ddwfn yng ngwaith asiantaethau arall ac yn ymwybodol iawn o sut mae ein rôl yn cyfrannu at ein hamcanion ni ac amcanion cyrff cyhoeddus arall.

Cydweithio

Yn gysylltiedig â'r broses o integreiddio ein gwaith mae ein hymrwymiad i weithio ar y cyd. Mae angen mewnbwn gan ystod o gyrff er mwyn i bob un o'n Canlyniadau Lefel Uchel lwyddo. Rydym yn gweithio fel rhan o ystod eang o bartneriaethau, a phawb yn cefnogi ei gilydd i gyflawni ein hamcanion llesiant. Yn fewnol hefyd rydym yn cydweithio'n effeithiol ar draws swyddogaethau amrywiol ein sefydliad i gyflawni ein hamcanion.

Cyfranogiad

Rydym yn rhoi cyfle i'n cleientiaid roi eu barn am ein gwasanaeth a phan maen nhw'n siarad, rydym ni'n gwranddo. Byddwn yn gynyddol yn rhoi cyfleoedd i gleientiaid

ddweud eu dweud am y gwasanaethau yr hoffent eu gweld gennym yn y dyfodol a sut yr hoffent eu gweld yn cael eu darparu. Bydd cyfranogiad y bobl sydd â wnelo cyflawni'r nodau llesiant fwyaf â nhw yn sicrhau mai'r gwasanaeth a ddarperir gennym yw'r un mwyaf addas o ran cyflawni'r nodau hynny. Byddwn yn ceisio sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardaloedd rydym yn eu gwasanaethu.

3.8: Y Gymraeg

Fel gwasanaeth gyrfaoedd cenedlaethol i Gymru rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth gwirioneddol ddwyieithog, gan sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael eu darparu yn newis iaith y cleient a bod ein holl adnoddau, gwefan a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn gwbl ddwyieithog. Ers mis Ebrill 2018 bu'n ofynnol i ni gyrraedd safonau'r Gymraeg fel y'u nodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Yn ogystal, rydym wedi ymrwymo'n llwyr i gefnogi *Cymraeg 2050*, strategaeth Llywodraeth Cymru i gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Byddwn yn cefnogi'r blaenoriaethau fel y'u hamlinellir yn rhaglen Waith Llywodraeth Cymru 2017-21, gan gynnwys:

- Byddwn yn gweithio â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gyflawni ein rôl yn "Tuag at Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg - Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg", gan sicrhau bod dysgwyr yn cael cefnogaeth a gwybodaeth i symud ymlaen ar hyd y continwmm iaith Gymraeg mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 ac ymlaen i ôl-19 lle bo hynny'n briodol.
- Helpu ysgolion i gyflawni eu rôl o ran cyfrannu at greu siaradwyr Cymraeg trwy ddarparu adnoddau i gefnogi eu cwricwlwm addysg gyrfaoedd sy'n pwysleisio gwerth sgiliau iaith Gymraeg yn yr economi.
- Parhau i bwysleisio pwysigrwydd sgiliau iaith Gymraeg yn yr economi, gan gynnwys cynnal dwy ffair yrfaeodd 'Cymraeg yn y Gweithle', un yng Ngogledd Cymru ac un yn Ne Cymru sydd wedi'i hanelu at ysgolion cyfrwng Cymru a'u disgyblion, ond nid yn unig ar eu cyfer.
- Lle maent wedi'u datblygu, gwneud cleientiaid yn ymwybodol o ddarpariaeth cyrsiau dwyieithog.
- Datblygu ymgyrchoedd marchnata mewn cydweithrediad â chyflogwyr i gynyddu ymwybyddiaeth pobl ifanc o werth sgiliau dwyieithog yn y gweithle.
- Cefnogi cydweithwyr yn fewnol i ddilyn hyfforddiant Cymraeg trwy Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg a chefnogi eu dysgu parhaus yn y sefydliad lle bynnag y bo modd trwy annog defnyddio'r Gymraeg.
- Parhau i ddarparu ein holl adnoddau yn Gymraeg a Saesneg yn ogystal â'n holl sianelau gwefan a chyfryngau cymdeithasol yn unol â'n safonau Cymraeg.

Adran 4: Rheoli Cyllid ac Adnoddau

| Cyllideb Gyrfa Cymru 2019-20 | |
|--|-------------------|
| Incwm | |
| Contract Craidd Llywodraeth Cymru | 18,800,000 |
| Cyllid Ychwanegol LIC ynglŷn â Dyfarnu TAW | 700,000 |
| Cyngor ar Waith Cymru | 9,180,000 |
| Twf Swyddi Cymru | 17,412 |
| Gwasanaeth Paru Prentisiaethau | 47,645 |
| Sbardun – Cronfa Gymdeithasol Ewrop | 1,825,000 |
| Dosbarth Busnes Cymru Llywodraeth Cymru | 144,000 |
| Contractau Arall | 304,038 |
| Cyfanswm Incwm | 31,018,095 |
| Gwariant | |
| Cyflogau | 23,070,945 |
| Costau sy'n gysylltiedig â Staff | 145,895 |
| Teithio | 535,000 |
| Recriwtio Staff | 17,250 |
| Hyfforddiant Staff | 150,000 |
| Ymchwil a Gwerthuso | 40,000 |
| Cyfanswm costau staff | 23,959,090 |
| Adeiladau | |
| Rhent | 612,000 |
| Trethi a Dŵr | 180,830 |
| Ynni | 123,450 |
| Glanhau | 298,960 |
| Cynnal a Chadw a Dadfeiliad | 260,000 |
| Yswiriant | 63,455 |
| Diogelwch a Diogelu Tân | 43,000 |
| Iechyd a Diogelwch | 23,000 |
| Cyfanswm adeiladau | 1,604,695 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | |
| TG | 436,700 |
| Ffonau | 241,500 |
| Argraffu | 84,000 |
| Llungopïo | 51,500 |
| Postio ac Offer Swyddfa | 47,500 |
| Ffioedd proffesiynol | 259,350 |
| Cynnal a Chadw a Chymorth ar gyfer GC.com | 634,230 |
| Marchnata | 445,950 |
| Cyfieithu | 52,500 |
| Gwybodaeth/Meddalwedd/Digidol | 229,500 |
| Cyflenwadau nad ydynt yn rhai Craidd | 159,000 |
| Darpariaeth arall | 255,570 |
| Cyfarpar arall | 7,000 |
| Costau Swyddfa Amrywiol | 3,750 |
| Mewngyrch TAW na ellir ei adennill | 1,100,000 |
| Cyfanswm Cyflenwadau a Gwasanaethau | 4,008,050 |
| Dibrisiad | |
| Dibrisiad Asedau Sefydlog | 148,000 |
| Amorteiddiad | 1,303,860 |
| Llog sy'n dderbyniadwy | - 7,000 |
| Treth | 1,400 |
| Cyfanswm Dibrisiad, Llog a Threth | 1,446,260 |
| Cyfanswm Costau nad ydynt yn gostau staffio | 7,059,005 |
| Cyfanswm Gwariant | 31,018,095 |
| Gwarged/Diffyg | 0 |

Atodiad 1: Tabl Gwybodaeth Perfformiad

Byddwn yn darparu gwybodaeth perfformiad penodol sy'n gysylltiedig â'r meysydd canlynol.

| Mesur | |
|-------|--|
| 1. | Bydd swyddogaeth y Swyddog Cyfrif yn weithredol ar draws pob un o'r 257 o ysgolion yng Nghymru (ysgolion uwchradd prif ffrwd ac ysgolion arbennig). |
| 2. | Mae gwybodaeth perfformiad sy'n ymwneud â gweithredu a pherfformiad gwasanaeth newydd Cymru'n Gweithio wedi'i gynnwys yn y llythyr grant sy'n amlinellu'r holl wybodaeth perfformiad fydd yn cael ei gasglu ac yr adroddir arno. |
| 3. | a. Ar ôl hyfforddi 120 o ysgolion yn ystod blynyddoedd 1 a 2 o gynllun cyflwyno 3 blynedd y Gyfnewidfa Addysg Busnes, byddwn yn hyfforddi'r ysgolion uwchradd prif ffrwd sy'n weddill yn ystod 2019-20. b. Byddwn yn sicrhau y bydd nifer y cyflogwyr sydd â'r ystod lawn o ddata gweithgaredd yn cynyddu hyd at o leiaf 3,500 erbyn diwedd y flwyddyn. |
| 4. | Bydd Cynghorwyr Gyrfa yn gweithio mewn dim mwy na 2 ysgol neu â llwyth achos cyfartalog o 570 yng Nghyfnod Allweddol 4 |
| 5. | Bydd o leiaf 80% o ddisgyblion yn cwblhau Gwiriad Gyrfa cyn iddynt adael Blwyddyn 11. |
| 6. | Byddwn yn sefydlu meincnod o ran cyfran y bobl ifanc yng Nghyfnod Allweddol 4 sy'n hunan-wasanaethu yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy ryngweithio digidol. (Bydd yn adrodd ar Gyswllt Gyrfa Cymru, Sgwrs Fyw a'r rhai sydd wedi mewngofnodi i gyrfacymru.com) |
| 7. | Bydd o leiaf 75% o ddisgyblion yn derbyn gwasanaeth wyneb yn wyneb erbyn iddynt adael Blwyddyn 11. (Gall fod yn gyfweiliad un i un neu fynychu sesiwn grŵp). |
| 8. | Byddwn yn cynhyrchu o leiaf 10 o weminarau dan arweiniad cyflogwyr sy'n canolbwyntio ar y sectorau blaenoriaeth cenedlaethol (gofal, manwerthu, twristiaeth a bwyd a diod), yn ogystal â sectorau â blaenoriaeth a rennir ar gyfer y 3 partneriaeth sgiliau rhanbarthol. |
| 9. | Byddwn yn cynnal o leiaf 12 o ddiwyddiadau uchel eu heffaith/proffil yn canolbwyntio ar flaenoriaethau rhanbarthol a sectorau twf. |
| 10. | Bydd o leiaf 90% o ysgolion prif ffrwd yn cael eu cefnogi mewn nosweithiau rhieni/diwyddiadau ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4. |
| 11. | Gweler rhif 2 uchod. |

Yn ychwanegol i'r mesurau uchod, byddwn, yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, yn parhau i ddarparu data chwarterol sy'n ymwneud â nifer y rhyngweithiadau ar draws ystod o sianelau a ddarperir gan y cwmni. Byddwn yn gallu darparu cymhariaeth â pherfformiad yn y flwyddyn fusnes flaenorol.

Atodiad 2: Rhestr Talfyriadau

| | |
|---------|---|
| ISO | Sefydliad Safoni Rhyngwladol |
| PBSA | Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus |
| OWASP | Prosiect Diogelwch Cymwysiadau Gwe Agored |
| ITHC | Gwiriad Iechyd TG |
| IASME | Sicrwydd Gwybodaeth ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig |
| CDI | Sefydliad Datblygu Gyrfa |
| VoIP | Protocol Llais dros y Rhyngrwyd |
| CSC/CCD | Consortiwm Canolbarth y De - y Gwasanaeth Addysg ar y Cyd ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. |
| EAS/GCA | Gwasanaeth Cyflawniad Addysg - a ffurfiwyd gan bum awdurdod lleol Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen ac a ddyluniwyd i godi safonau addysg yn Ne Ddwyrain Cymru. |
| ERW | Consortia gwella ysgolion sy'n cynnwys Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe. |
| GwE | Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru, yn gweithio ochr yn ochr ac ar ran Awdurdodau Lleol Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn. |